Llywodraeth Cymru
Welsh Government




# Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru – Adolygiad Canol Cyfnod 2018

Creu ffyniant i bawb

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| Pennod un – Cyd-destun | 4 |
| Pennod dau – Cyflawni'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru | 7 |
| Pennod tri – Ein cynlluniau a'n blaenoriaethau buddsoddi | 24 |
| Pennod pedwar – Parhau i wella'r ffordd rydym yn cynllunio, yn cyllido ac yn darparu seilwaith | 37 |
| Diweddariad ar y Llif Prosiectau | dogfen ar wahân |


## Rhagair

Mae llawer wedi newid ers i'm rhagflaenydd, Jane Hutt gyhoeddi'r *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru* (y Cynllun Buddsoddi) yn 2012. Bryd hynny, roedd degawd o dwf yn ein cyllidebau cyfalaf yn dod i ben ac roeddem yn gweld cychwyn y cyfnod hiraf o gyni mewn cof.  Yn ystod y degawd lle bu cyllidebau cyfalaf yn cynyddu, llwyddom i wneud cryn dipyn i ddadwneud y dirywiad mewn seilwaith cyhoeddus hanfodol a welwyd dros genedlaethau yng Nghymru cyn dyddiau datganoli.

Wrth i ni gyhoeddi'r adolygiad canol cyfnod o'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, bydd ein cyllideb cyfalaf, heb gynnwys trafodiadau ariannol, 20% yn is mewn termau real erbyn diwedd y degawd na'r hyn yr oedd ar ei huchaf yn 2009-10, a hynny o ganlyniad i bolisi cyni niweidiol a pharhaus Llywodraeth y DU. Wrth i mi ysgrifennu hyn, nid yw'n ymddangos bod y cyfnod o gyni'n dirwyn i ben, er gwaetha'r niwed mae wedi'i wneud i wasanaethau cyhoeddus ac i economi'r Deyrnas Unedig yn ehangach.

Mae'r rhagolygon ariannol yn dal i fod yn ansicr. Mae'r rhagolygon ar gyfer twf yn y DU wedi'u diwygio i ddangos bwlch cynyddol rhwng y DU a gwledydd datblygedig eraill. Yn dilyn gwelliant yn economi'r byd ar ddechrau 2018, mae'r DU yn syrthio y tu ôl i bob un o wledydd y G7.

Mae'r ffaith bod llawer o gwestiynau heb eu hateb ynghylch dyfodol y DU y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd wedi cymhlethu'r sefyllfa hon. Ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn 2012, wrth gwrs, rydym wedi cael y refferendwm a'r penderfyniad i ymadael â'r UE.



Serch hynny, er yr hinsawdd economaidd anodd a'r hinsawdd wleidyddol ehangach, yn y chwe blynedd ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi, rydym wedi cyflawni llawer iawn ac wedi cyflwyno rhaglen seilwaith uchelgeisiol, gan gynnwys ysgolion, ysbytai, ffyrdd a chynlluniau teithio llesol newydd a mwy na 17,000 o gartrefi fforddiadwy.

Mae ein cynlluniau ar gyfer y seilwaith dros weddill oes y Cynllun Buddsoddi yr un mor uchelgeisiol ac yn cynnwys ein prif ymrwymiadau i gyflawni ein targed o ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy (gan ddod â'r cyfanswm drwy'r cynllun i fwy na 30,000); Metro De Cymru; Canolfan Gofal Integredig Aberteifi; gwelliannau i'r A55; band eang cyflym iawn a'r genhedlaeth nesaf o fand eang ac, yn dibynnu ar ganlyniad ymchwiliad cyhoeddus, ffordd liniaru'r M4.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £9bn o gyllid cyfalaf yn seilwaith Cymru rhwng 2012 a 2018. Rydym wedi rhoi hwb i'n buddsoddiad cyfalaf drwy gyfuniad o arian Ewropeaidd a chyllid arloesol.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn. Y llynedd, lansiais y Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a fydd yn denu £1bn arall o fuddsoddiad cyfalaf, i ddarparu Canolfan Ganser newydd Felindre, adrannau 5 a 6 yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd a rhan sylweddol o Fand B Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif.


Bydd ein pwerau benthyca newydd yn ein helpu hefyd i ddarparu buddsoddiadau strategol mawr na ellid eu fforddio fel arall gyda'n cyllidebau cyfalaf craidd yn unig.

Mae'r adolygiad canol cyfnod o'r Cynllun Buddsoddi yn gyfle i edrych yn ôl ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni ers 2012 ac i gyflwyno ein cynlluniau ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun hwn.

Mae'n rhoi cyfle hefyd i ystyried cyfeiriad ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn y dyfodol, yng ngoleuni newidiadau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol ehangach gan gynnwys sut byddwn ni'n gwireddu potensial llawn *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* a *Ffyniant i Bawb*.

Rhaid i ni ddechrau meddwl a chynllunio nawr ar gyfer y Gymru a garem ymhen 10 mlynedd, yn enwedig os ydym am sicrhau bod ein buddsoddiad yn cael yr effaith orau bosibl. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud a'i gwblhau yn ystod y blynyddoedd nesaf, a bydd yn sail i ddatblygu'r Cynllun Buddsoddi nesaf. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r cynllun hwnnw yn gynnar yn ystod y Chweched Cynulliad.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm rhagflaenydd Jane Hutt am ei gwaith i ddatblygu'r Cynllun Buddsoddi a'i nodau a'i egwyddorion, sydd wedi llywio ein buddsoddiadau mewn seilwaith yng Nghymru, er mwyn Cymru.



**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**

# Pennod un – Cyd-destun

## Mae'r bennod hon yn cyflwyno cyd-destun yr adolygiad canol cyfnod o'r **Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**; yn benodol, y dirwedd economaidd, wleidyddol a chymdeithasol sy'n newid ers cyhoeddi'r cynllun yn 2012.

### Cefndir

Yn ystod y blynyddoedd ers i Lywodraeth y DU gyflwyno'i pholisi cyni, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i roi ysgogiad yr oedd dirfawr ei angen i greu a chynnal twf economaidd a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Fel rhan o'r gwaith hwn aethom ati i gyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (y Cynllun Buddsoddi) yn 2012, gydag uchelgais 10 mlynedd ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith ledled Cymru gan ganolbwyntio'n benodol ar dwf a swyddi. Roedd y cynllun yn gosod ein gweledigaeth a'n nodau ar gyfer y dyfodol; ein blaenoriaethau a'r camau y byddem yn eu cymryd i'w cyflawni. Roedd hyn yn cynnig y fframwaith i ni ei ddefnyddio i flaenoriaethu, gosod ffiniau, a chydlynu'r gwaith o gyflawni ein buddsoddiadau mawr mewn seilwaith.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ers 2012 o ran cyflawni nodau a blaenoriaethau'r Cynllun Buddsoddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu lefelau buddsoddiad ac wedi targedu'r prosiectau hynny sy'n dwyn budd parhaol i Gymru, er mai dyma'r cyfnod hiraf o gyni mewn cof.

Rydym wedi cyflawni hyn drwy wneud defnydd llawn o'n cyllideb cyfalaf; rydym wedi sicrhau pwerau benthyca newydd ac wedi datblygu cynlluniau cyllid arloesol newydd, gan gynnwys y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Rydym wedi gwella rheolaeth a phresenoldeb cyhoeddus ein buddsoddiadau mewn seilwaith, ac wedi cynyddu'r gwerth am arian maent yn ei roi.

Mae rhagor o fanylion am y cynnydd rydym wedi'i wneud o ran cyflawni'r Cynllun Buddsoddi i'w gweld ym mhennod dau, gan gynnwys y manteision i gymunedau a busnesau ledled Cymru.

Gwelwyd sawl digwyddiad arwyddocaol ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn 2012. Pan gafodd y cynllun ei gyhoeddi, fe wnaethom addewid i edrych ar y cynllun eto wrth i amgylchiadau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol ddatblygu fel bod y cynllun yn cynnig fframwaith buddsoddi effeithiol ac yn parhau i fod yn integredig ac yn gyson ag ymrwymiadau Llywodraeth Cymru.

### Y sefyllfa bresennol

*Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb*

Ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2016, fe wnaethom gyhoeddi'r rhaglen lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* a'n strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*. Roedd y rhain yn cyflwyno blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r modd y byddem yn gweithio i ymateb i gyfleoedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i sicrhau'r effaith orau gyda llai o adnoddau.

Rydym yn cydnabod bod angen gweithio mewn ffordd wahanol drwy weithio'n fwy cydweithredol ac mewn ffordd fwy integredig, gan edrych ar y darlun tymor hir i atal problemau rhag codi. Mae hyn yn bwysicach nag erioed yn wyneb y cyni a'r ansicrwydd ariannol parhaus. Rydym yn cydnabod hefyd bod cysylltiad rhwng y gwahanol bethau a gyflawnwn, a bod llwyddo gydag un amcan yn gallu cael effaith gadarnhaol ar amcanion eraill – er enghraifft mae sicrhau gwaith yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd pobl yn mwynhau iechyd da ac mae addysg yn gwella cyfleoedd pobl o ran cael gwaith.

## Rhagolygon economaidd


Mae cyni'n parhau i fod yn nodwedd sy'n diffinio gwariant cyhoeddus. Yn dilyn y dirywiad economaidd yn 2010, mae economi'r DU wedi bod yn hir yn adfer ac mae'r twf wedi bod yn araf, yn enwedig ar ôl y refferendwm i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn wahanol i'r rhagolygon economaidd ar draws y byd, sydd wedi bod yn gwella ar raddfa gyflymach o lawer na'r hyn a welwyd yn y DU.

Mae'r cyni wedi effeithio ar gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru a fydd, erbyn diwedd y degawd hwn, wedi gostwng 7% mewn termau real ers 2010-11 (heb gynnwys trafodiadau ariannol). Fel mae ffigur un yn ei ddangos, gwelwyd cynnydd mewn termau real yn ddiweddar i gyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru ond mae'n parhau'n is na'r hyn oedd yn 2009-2010.

Petai'r gyllideb cyfalaf wedi cadw'n gyson â'r twf yn yr economi ers 2010-11, byddai Llywodraeth Cymru wedi cael £800m arall i wario ar brosiectau cyfalaf yn 2020-21.

Mae'n edrych yn bur debyg y bydd yr ansicrwydd ariannol yn parhau. Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys yn Natganiad y Gwanwyn 2018 y bydd Adolygiad o Wariant yn cael ei gynnal yn 2019, ac mae'n annhebygol y byddwn yn deall yn llwyr beth fydd effaith ymadael â'r UE ar wariant cyhoeddus tan hynny.

## Ffigur 1 – DEL cyfalaf Llywodraeth Cymru heb gynnwys trafodiadau ariannol (termau real, prisiau 2018-19)



## Y penderfyniad i ymadael â'r UE

Mae'r penderfyniad i ymadael â'r UE yn cynnig cyfleoedd a heriau gwahanol ar bob agwedd ar fywyd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i chwarae rhan adeiladol mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE. Rydym wedi gosod ein blaenoriaethau ar gyfer dyfodol y DU y tu allan i'r UE yn y Papur Gwyn *Diogelu Dyfodol Cymru*. Ym mis Rhagfyr 2017, fe wnaethom gyhoeddi papur polisi yn nodi ein dulliau i ddatblygu polisi buddsoddi rhanbarthol. Mae'n hanfodol i ni sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli a bod gennym gyfle go iawn i gynllunio a ffurfio Cymru a'i pherthynas ag Ewrop a gweddill y byd yn y cyfnod newydd ar ôl Brexit.

## Heriau eraill

Mae heriau economaidd-gymdeithasol eraill. Mae lefel uchel o anweithgarwch economaidd mewn sawl rhan o Gymru, lle mae lefel isel o gymwysterau ac ychydig o gyfleoedd am gyflogaeth. Mae'r tueddiadau diweddar mewn adeiladu tai yn awgrymu nad yw nifer yr eiddo sydd ar gael yn ddigon o bosib i gyfateb i'r cynnydd yn nifer yr aelwydydd. Yn y cyfamser, rydym yn cychwyn y broses i greu economi carbon isel yn fyd-eang ac mae angen i ni fanteisio ar hyn yng Nghymru i sicrhau ein bod yn fwy cystadleuol, yn ogystal â gwneud yn siŵr hefyd ein bod yn fwy cadarn wrth wynebu newid yn yr hinsawdd.

Mae llawer o heriau sylweddol yn ein hwynebu yn ystod y degawd nesaf ond mae maint Cymru a'i phoblogaeth yn golygu y gallwn fod yn graff a chydweithio i droi'r heriau hyn yn gyfleoedd cyffrous i sicrhau twf economaidd cynaliadwy, teg a chynhwysol.

Mae pennod tri'n nodi sut rydym yn adeiladu ar ein llwyddiannau ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi. I wneud yn siŵr bod ein buddsoddiad yn cael yr effaith orau bosibl, rydym yn mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio ac yn cysoni ein cynlluniau buddsoddi â'r ymrwymiadau yn *Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb*. Mae atodiad un yn nodi'r llif o fuddsoddiadau cyfalaf ar gyfer y tair i bum mlynedd nesaf, gan roi gwybodaeth am brosiectau Llywodraeth Cymru; cynlluniau sy'n cael eu hariannu gan lywodraeth leol a buddsoddiad preifat yn y sectorau dŵr, ynni a rheilffyrdd.

## Edrych i'r dyfodol

Mae'r newidiadau hyn a'r heriau sy'n parhau i fod o'n blaen yn golygu na allwn aros yn ein hunfan. Mae angen i ni sicrhau bod ein huchelgais o ran y seilwaith yn diwallu anghenion cenedlaethau heddiw ac yn y dyfodol.

Mae *Cynllun Gweithredu Economaidd* Llywodraeth Cymru yn nodi sut byddwn ni'n datblygu ein heconomi, yn lledaenu cyfleoedd, yn cryfhau ein sylfeini, yn creu lleoedd cystadleuol, ac yn diogelu ein heconomi at y dyfodol. Rydym wrthi'n sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ac rydym yn ymgynghori ynghylch yr opsiwn gorau ar gyfer ein cynllun defnydd tir newydd, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn rhoi darlun strategol o'n hanghenion a chyfleoedd seilwaith rhanbarthol a chenedlaethol i'n helpu i wneud penderfyniadau drwy'r Cynllun Buddsoddi er mwyn sicrhau bod ein buddsoddiadau'n gyson ac yn targedu'n benodol fel eu bod yn cael yr effaith orau bosibl.

Mae pennod pedwar yn nodi ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan adeiladu ar y gwaith llwyddiannus o gyflawni nodau a blaenoriaethau'r Cynllun Buddsoddi hyd yma, a'r camau a gymerwn i'n helpu i fuddsoddi mewn seilwaith i greu'r Gymru a garem.

Ein huchelgais yw sicrhau bod ein seilwaith yn gadarn ac yn integredig a'i fod yn cyfrannu at economi Cymru sy'n tyfu ac yn sicrhau ffyniant i bawb.

## Pennod dau: Cyflawni'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

**Mae'r bennod hon yn egluro'r cynnydd rydym wedi'i wneud i gyflawni nodau a blaenoriaethau'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (y Cynllun Buddsoddi) ers ei gyhoeddi yn 2012 ac, yn benodol, y manteision i gymunedau a busnesau ar draws Cymru.**

### Cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

Yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £9bn o gyllid cyfalaf er mwyn gwella a datblygu seilwaith ledled Cymru.

Rydym hefyd wedi datblygu cyfres o gynlluniau cyllid arloesol i gyd-fynd â'n rhaglen buddsoddiadau cyfalaf sefydledig, a fydd yn creu gwerth £2bn arall o fuddsoddiadau yng Nghymru.

Mae buddsoddiadau a'r broses gyflawni wedi'u strwythuro o amgylch y blaenoriaethau gwreiddiol a gafodd eu nodi yn y Cynllun Buddsoddi:

- Gwella rhwydweithiau trafnidiaeth.
- Gwella rhwydweithiau telathrebu.
- Cefnogi datblygiad y diwydiant ynni yng Nghymru.
- Buddsoddi mewn tai ac adfywio.
- Darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon a darbodus.
- Gwella ansawdd yr ystad addysg.
- Datblygu ein hardaloedd menter.

Mae'r buddsoddiadau rydym wedi'u gwneud hyd yma drwy'r Cynllun Buddsoddi – er enghraifft, drwy ddatblygu'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y gogledd a'r de a rhwng y dwyrain a'r gorllewin – wedi helpu i greu cyfleoedd i ddenu a datblygu busnesau mewn gwahanol rannau o Gymru, ac i wella mynediad cymunedau at wasanaethau cyhoeddus, hyfforddiant, cyfleoedd hamdden a gwaith. Mae datblygiadau eraill – fel band eang cyflym iawn – yn rhaglenni pwysig yn genedlaethol. Mewn meysydd eraill, mae prosiectau penodol ar gael sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at les a thwf rhanbarthol.

Roedd ein strategaeth ar gyfer cyflawni'r Cynllun Buddsoddi yn llwyddiannus yn cynnwys pedwar nod:

---

**1. Creu system sy'n nodi ac yn blaenoriaethu cynlluniau seilwaith o bwys cenedlaethol ar draws cyfrifoldebau adrannol, gan gyfeirio adnoddau yn benodol ar fuddsoddiadau sydd â'r flaenoriaeth uchaf sy'n cynnig y budd mwyaf yn unol â datblygu cynaliadwy.**

Rydym wedi mabwysiadu dull o werthuso a blaenoriaethu cynlluniau ar gyfer dyraniadau cyfalaf, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gyda blaenoriaethau pendant sy'n hyrwyddo'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r model busnes pum achos a ddefnyddir i baratoi achosion busnes yn cryfhau'r dull hwn ymhellach – mae hyn yn golygu bod cynigion yn cael eu gwerthuso ar sail eu haddasrwydd strategol; manteision economaidd a gwerth am arian; nodweddion masnachol; fforddiadwyedd a'r gallu i'w cyflawni.

### Dull o bennu cyllidebau cyfalaf

Wrth gryfhau ein dull o flaenoriaethu, rydym wedi adolygu a newid y ffordd rydym yn pennu cyllidebau cyfalaf. Yn y gorffennol, roedd cyllidebau'n cael eu pennu drwy ddwyn ymlaen hen gyllidebau sylfaenol, gan eu haddasu i adlewyrchu gostyngiadau mewn termau real a chadw arian yn ganolog i'w ddyrannu yn ystod y flwyddyn, yn unol â'n blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiadau strategol a nodwyd yn y Cynllun Buddsoddi. Ar ddechrau tymor y Cynulliad hwn, cynhaliwyd adolygiad o bob cynllun buddsoddi cyfalaf; gan nodi'r ymrwymiadau cyfreithiol fel y

flaenoriaeth gyntaf, ac yna'r prif flaenoriaethau a'r rhaglenni hynny sy'n cynnig y mwyaf o fanteision yn y tymor hir.

Cynhaliom adolygiad o'r dystiolaeth a oedd ar gael ynghylch effaith, effeithiolrwydd a gwerth am arian rhaglenni cyfalaf ar draws y llywodraeth. Roedd hyn yn cynnwys gwerthusiadau ac astudiaethau effaith yng Nghymru ac ar gyfer rhaglenni tebyg mewn llefydd eraill. Cafodd y crynodeb o'r dystiolaeth ei adolygu gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru ar y pryd, a gymeradwyodd ganfyddiadau cyffredinol a graddfa'r sylfaen dystiolaeth yn annibynnol. Cafodd y dystiolaeth ei defnyddio i lywio'r broses o ddyrannu adnoddau ar draws portffolios Gweinidogion.

Yn sgil y gwaith hwn, cafodd cyllid cyfalaf ei ddyrannu fesul rhaglen dros gyfnod o bedair blynedd (rhwng 2017-18 a 2020-21) yng Nghyllideb 2017-18; cafodd ychydig o arian canolog ei gadw er mwyn ymateb i bwysau ac i'w ddyrannu i flaenoriaethau wrth i broffiliau cyllid a chyflawni gael eu datblygu. Mae dyrannu cyllidebau cyfalaf dros bedair blynedd wedi cynnig mwy o sicrwydd i'r sector adeiladu, i fuddsoddwyr ac i fusnesau. Mae hefyd wedi cynnig mwy o hyblygrwydd o fewn llywodraeth i reoli ein blaenoriaethau buddsoddi a gan arwain at benderfyniadau gwell wrth fuddsoddi.

## Blaenoriaethu buddsoddiadau mewn seilwaith

Mae adrannau'n blaenoriaethu eu buddsoddiadau cyfalaf mewn seilwaith gan ddilyn blaenoriaethau ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Caiff cynlluniau eu monitro i sicrhau eu bod yn parhau i ymateb i'r proffil anghenion sy'n newid ar draws Cymru.

Yn y portffolio iechyd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG i nodi blaenoriaethau ar gyfer rhaglen cyfalaf Cymru gyfan y GIG mwyn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch buddsoddi'n cael eu gwneud yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yn asesu'r angen yn lleol, a bydd hyn yn ei dro yn sail i'w blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf, sy'n cael eu nodi yn eu cynlluniau tymor canolig integredig perthnasol. Mae rhaglen cyfalaf Cymru gyfan y GIG wedi'i seilio ar y blaenoriaethau hyn, yn amodol ar werthuso trylwyr o achosion busnes gan y bwrdd buddsoddi mewn seilwaith, sy'n gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Iechyd.

Mae sefydliadau'r GIG hefyd yn cael cyfalaf disgresiwn, sy'n cyfateb i oddeutu 25% o'r gyllideb cyfalaf iechyd bob blwyddyn. Y bwriad gyda'r arian hwn yw ei ddefnyddio ar gyfer gofynion cynnal a chadw a buddsoddiadau cyfalaf eraill.

Mae'r rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ainGanrif yn cyfeirio buddsoddiadau'n benodol at yr ysgolion a'r colegau hynny sydd â'r adeiladau gwaethaf o ran cyflwr. Mae'n darparu adeiladau cynaliadwy a chost-effeithiol, o'r maint priodol, yn y lleoliad priodol, ac â'r cyfleusterau priodol i ddarparu gwasanaethau addysgol. Mae'r rhaglen wedi'i llunio hefyd i wneud y defnydd gorau posibl o seilwaith ac adnoddau, er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ein cymunedau.

Mae'r rhaglen yn cael ei chyflawni mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac eraill sy'n blaenoriaethu'r prosiectau i'w cyflawni. Mae proses gadarn ar gyfer cymeradwyo achosion busnes. Bydd grŵp craffu mewnol yn cynnal asesiad manwl a phanel buddsoddiad lefel uchel yn ystyried yr achosion, gan wneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Addysg.

Mae'r rhaglen o fuddsoddiadau sy'n cael eu hariannu o fewn portffolio'r economi a thrafnidiaeth yn cyd-fynd yn agos â'r *Cynllun Gweithredu Economaidd* ac yn ceisio tyfu'r economi a lleihau anghydraddoldeb. Bydd y potensial i ysgogi cyllid ychwanegol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat hefyd yn cael ei ystyried.

Mae cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau yn cael ei dargedu at fuddsoddiadau sy'n canolbwyntio ar yr hirdymor ac yn paratoi busnesau at y dyfodol. Bydd buddsoddiadau mewn eiddo yn cael eu hysgogi

Astudiaeth Achos Buddsoddiadau Allweddol



## Uned Iechyd Meddwl Acíwt i Oedolion, Llandochau

Roedd Hafan y Coed – yr uned iechyd meddwl i oedolion, a oedd werth £88m – yn cymryd lle gwasanaethau a oedd yn arfer cael eu darparu yn Ysbyty'r Eglwys Newydd, ac mae'n ategu gwaith Uned Llanfair sydd eisoes yn rhan o Ysbyty Athrofaol Llandochau. Mae'n cynnig gwasanaethau arbenigol i bobl sydd angen therapi dibyniaeth, gwasanaethau niwroseiciatreg, gofal dwys, gwasanaethau help i wella a gwasanaethau cysylltiedig. Mae Hafan y Coed yn uned â 135 o welyau sy'n ceisio helpu cleifion i wella, ac mae'n golygu bod llai o bobl angen gofal y tu allan i'r ardal. Fe agorodd yr uned ym mis Ionawr 2016.

Mae'n gwasanaethu pobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, ac mae'r llety pwrpasol yn cynnwys gwasanaethau asesu/brysbennu a thriniaeth. Mae hefyd yn cynnwys y gwasanaeth argyfwng, gwasanaethau dydd ar gyfer dibyniaeth a niwroseiciatreg, ac ystafell ar gyfer Tribiwnlys Deddf Iechyd Meddwl.

## Astudiaeth Achos Buddsoddiadau Allweddol




## Campws Dysgu Treffynnon, Sir y Fflint

Mae Campws Dysgu Treffynnon yn brosiect sy'n werth £31m, ac mae wedi cael £15.5m gan y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21$^{ain}$ Ganrif. Yn sgil hyn, caewyd tair ysgol hŷn yn yr ardal – ysgol fabanod Ysgol Perth y Terfyn, ysgol iau Ysgol y Fron a hen Ysgol Uwchradd Treffynnon – ac uno ysgolion babanod ac ysgolion iau oedd yn bodoli gynt.

Cafodd yr adeilad newydd ei ddatblygu ar safle presennol Ysgol Uwchradd Treffynnon ac fe agorodd ym mis Medi 2016, gan greu campws dysgu rhwng 3 a 16 oed sy'n cynnwys Ysgol Uwchradd Treffynnon (ysgol uwchradd â thri llawr) ac Ysgol Maes y Felin (ysgol gynradd ag un llawr). Enillodd y campws (Galliford Try) Wobr Cynaliadwyedd Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru 2017.

Roedd tipyn o heriau ar y safle ac roedd hyn yn gofyn am ddyluniad a fyddai'n addas ar dir a oedd yn anwastad dros ben. Wrth ddymchwel yr hen ysgol uwchradd, roedd llawer iawn o wastraff. Cafodd naw deg y cant o'r gwastraff ar y safle wrth ddymchwel adeiladau ei ailddefnyddio, a chafodd 6% o'r gwastraff oedd yn weddill ei ailgylchu. Cafodd dros 50,000 tunnell o bridd y safle ei ailddefnyddio ar gyfer llunio'r dirwedd, sy'n golygu bod 99.9% o'r pridd wedi'i ailddefnyddio ar y safle.

Y prif fanteision

- £77m o enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad; mae pob punt a gafodd ei gwario yn cynrychioli £3 o werth llesiant i gymdeithas.
- Cafodd 76% o'r gyllideb ei wario o fewn 30 milltir ac roedd 93% o'r isgontractwyr yn fusnesau bach a chanolig. Gweithiodd tîm y prosiect yn agos gydag isgontractwyr i hyrwyddo buddsoddiad lleol, gan rannu'r ymrwymiad i lawr y gadwyn gyflenwi. Roedd edrych ar gynaliadwyedd fel un tîm yn annog pob aelod o'r tîm i chwilio am ffyrdd y gallent gyfrannu at yr agenda.
- 55 o gyfleoedd cyflogaeth a 19 prentisiaeth.
- Roedd rhaglen amrywiol o weithgareddau addysgol a chymunedol wedi helpu i ysbrydoli pobl ifanc a rhoi hwb i'w cyflogadwyedd, gan gynnwys ffeiriau gyrfaoedd, sgyrsiau am ddiogelwch, ymweliadau â'r safle, mentora ar gyfer myfyrwyr lleol, gweithdai Modelu Gwybodaeth am Adeiladau (BIM), a digwyddiadau dathlu fel gosod llechi, llofnodi trawstiau dur a chapsiwl amser.

Mae'r prosiect wedi cynnig amgylchedd dysgu modern ac ysbrydoledig i'r dysgwyr yn y gymuned leol yn ogystal â chyfleusterau canolfan gymunedol ar gyfer grwpiau lleol allanol. Mae'r ddwy ysgol yn unigryw. Er eu bod ar wahân, maent yn creu amgylchedd dysgu i blant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed i gefnogi ein dysgwyr ifanc drwy eu taith dysgu.

gan anghenion rhanbarthol a blaenoriaethau a rhaglenni Llywodraeth Cymru fel Tasglu'r Gweinidog ar gyfer Cymoedd y De. Bydd ymyriadau trafnidiaeth yn canolbwyntio ar dwf economaidd; trechu tlodi; teithio cynaliadwy a diogelwch a gwella mynediad at swyddi a gwasanaethau.

Mae trefniadau llywodraethu mewnol cadarn yn eu lle i herio a chraffu ar gynigion busnes a gwneud argymhellion i Ysgrifennydd yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae'r panel buddsoddi yn ystyried ceisiadau hyd at £1m; mae Bwrdd Cynghori Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol yn ystyried ceisiadau am gymorth dros £1m a'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau yn ystyried ceisiadau'r sector creadigol dros £1m.

## 2. Cynyddu'r adnoddau a fuddsoddir mewn seilwaith strategol â blaenoriaeth dros y 10 mlynedd nesaf y tu hwnt i lefelau cyllidebol disgwyliedig.

#### Cyllid cyfalaf ychwanegol

Yn ystod tymor y Cynulliad blaenorol (2011–2016), fe wnaethom ddyrannu £1.6bn ychwanegol o gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau pwysig sy'n cyflawni yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Buddsoddi. Roedd y cyllid hwn uwchlaw cyllidebau cyfalaf prif ffrwd adrannau, ac yn golygu bod modd gwneud y buddsoddiadau canlynol:

- Dros £410m i wella rhwydweithiau trafnidiaeth.
- £20m i wella rhwydweithiau telathrebu.
- Dros £110m i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r diwydiant ynni yng Nghymru.
- Dros £520m wedi'i fuddsoddi yn y maes tai ac adfywio.
- £220m i helpu i ddarparu mwy o wasanaethau cyhoeddus effeithlon a darbodus, gyda'r rhan fwyaf o'r arian hwnnw wedi'i glustnodi ar gyfer GIG Cymru.
- Dros £160m i wella ansawdd yr ystad addysg.
- Dros £230m i ddatblygu ein hardaloedd menter ac i gefnogi datblygu economaidd.

Mae ein cynlluniau gwariant sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer y cyfnod rhwng 2018-19 a 2020-21 yn nodi £6.5bn arall o gyllid cyfalaf i'w fuddsoddi ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys manteisio ar y pwerau benthyg newydd sydd gan Gymru yn sgil y fframwaith cyllidol y cytunwyd arno gyda Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2016.

#### Cyllid Arloesol

Yn unol â nodau'r Cynllun Buddsoddi, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu llif o gynlluniau cyllid arloesol i gyd-fynd â'r gyllideb gyfalaf, ac i gyflawni cynlluniau uchelgeisiol y Llywodraeth ar gyfer buddsoddi yn seilwaith y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Dyma rai o'r cynlluniau sydd ar waith:

- Mae cynllun y Grant Cyllid Tai, a lansiwyd ym mis Medi 2013, wedi sicrhau £120m o gyllid newydd i'r sector. Mae'r cynllun wedi cael ei ymestyn gyda £260m ychwanegol, a bydd yn darparu dros 2,500 o gartrefi fforddiadwy i gyd ym mhob cwr o Gymru.
- Bydd y rhaglen Rheoli Peryglon Arfordirol yn cyflawni buddsoddiad gwerth £150m yn ystod oes y rhaglen mewn cynlluniau sy'n cael eu harwain gan awdurdodau lleol. Mae gwaith dylunio a datblygu yn mynd rhagddo ar gyfer cynlluniau gan gynnwys Dwyrain y Rhyl, Y Mwmbwls, Porthcawl, Aberafan ac Aberaeron. Bydd y cyllid refeniw ychwanegol o £2.4m yn 2019-20 yn gychwyn ffrwd refeniw tymor hir drwy'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol.
- Gwerth tua £340m o fuddsoddiad drwy'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol, sy'n golygu bod modd cynnig tua £170m o fuddsoddiad i wella priffyrdd a thua £170m o fuddsoddiad ar gyfer Band A yn rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, sy'n helpu i gyflymu'r gwaith

Rydym hefyd wedi datblygu'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol – math arloesol o bartneriaeth cyhoeddus-preifat – a fydd yn sicrhau gwerth dros £1bn o brosiectau seilwaith, gan gynnwys Canolfan Ganser newydd Felindre, rhannau 5 a 6 o'r A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd a Band B o raglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif.

Yn 2017, daeth Llywodraeth Cymru yn gyd-berchennog ar Local Partnerships LLP, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a sefydlwyd gan Drysorlys EM a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol. Mae gan Local Partnerships gyfrifoldeb masnachol i gefnogi'r broses gaffael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus lleol, rhaglenni buddsoddi, y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac o reoli asedau mewn cymunedau lleol. Mae gennym fynediad uniongyrchol at arbenigedd masnachol a fydd yn ei helpu i ddatblygu ei gallu masnachol ac i sicrhau canlyniadau mwy effeithlon ar brosiectau seilwaith mawr.

**Bargeinion Twf a Dinesig**

Mae ein ceisiadau llwyddiannus wedi sicrhau adnoddau ychwanegol sylweddol i ofalu bod Cymru yn elwa o bolisi bargeinion twf a dinesig Llywodraeth y DU.

Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi sicrhau cronfa fuddsoddi sydd werth £1.2bn dros gyfnod o 20 mlynedd ar gyfer y rhanbarth, sy'n cynnwys 10 awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru. Yn ystod ei hoes, rhagwelir y bydd y Fargen Ddinesig yn creu hyd at 25,000 o swyddi newydd ac yn denu £4bn o fuddsoddiad ychwanegol ar gyfer y sector preifat.

O dan arweiniad Llywodraeth Cymru, un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi a gytunwyd yn y fargen yn 2016 fydd Metro De Cymru, gyda phecyn buddsoddi sydd werth dros £734m i gyd (£503m gan Lywodraeth Cymru, £125m gan Lywodraeth y DU, a phosibilrwydd o hyd at £106m o gronfeydd Ewropeaidd). Bydd yn trawsnewid y ffordd mae pobl yn teithio o gwmpas y rhanbarth ac yn darparu gwasanaethau cyflymach a chydgysylltiedig sydd ar gael yn amlach, gan ddefnyddio trenau, bysiau a rheilffyrdd ysgafn.

O dan arweiniad y ddinas-ranbarth, bydd £495m arall (£375m gan Lywodraeth y DU a £120m gan awdurdodau lleol) ar gael i'w flaenoriaethu yn unol â nodau'r fargen ddinesig. Dyma rai o'r blaenoriaethau cynnar ar gyfer buddsoddi drwy'r fargen ddinesig.

- £38m i gefnogi'r gwaith o ddatblygu clwstwr diwydiannol o led-ddargludyddion cyfansawdd, a fydd yn creu dros 2,000 o swyddi. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi £12m o gyllid ar gyfer hyn.
- Cytundeb mewn egwyddor ar gyfer gwaith gwerth £180m i ailddatblygu prif ganolfan drafnidiaeth Caerdydd, gan gynnwys £40m o gyllid i greu cyfnewidfa drafnidiaeth canolog newydd.

Bargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, sydd werth £1.3bn, oedd yr ail i gael sêl bendith yng Nghymru. Dros y 15 mlynedd nesaf, bydd yn ceisio rhoi hwb o £1.8bn i'r economi leol a chreu bron i 10,000 o swyddi newydd. Gyda chefnogaeth o £125m gan Lywodraeth Cymru, mae'n cynnwys hyd at 11 o gynigion am brosiectau mawr i ddarparu cyfleusterau o'r radd flaenaf ym maes ynni, gweithgynhyrchu clyfar, arloesi a gwyddorau bywyd, gyda buddsoddiad mawr yn seilwaith digidol y rhanbarth a gweithlu sydd â'r sgiliau a'r talentau angenrheidiol ar gyfer pob maes.

Mae trafodaethau'n parhau â Llywodraeth y DU a rhanbarth Gogledd Cymru ynghylch cynigion ar gyfer Bargen Twf y Gogledd a thrafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt ynghylch Bargen Twf y Canolbarth bosib.

**Cyllid yr Undeb Ewropeaidd**

Mae cronfeydd strwythurol yr UE a chefnogaeth Banc Buddsoddi Ewrop wedi bod yn bwysig iawn o ran cefnogi buddsoddiadau yn seilwaith Cymru.

## Astudiaeth Achos Buddsoddiadau Allweddol

### Cynllun amddiffyn arfordir Gorllewin y Rhyl

Cafodd yr amddiffynfeydd arfordirol gwreiddiol yng Ngorllewin y Rhyl eu hadeiladu rhwng 70 a 100 mlynedd yn ôl. Cafodd y cynllun hwn ei ddatblygu yn dilyn asesiad, a ddatgelodd y gallai gwerth dros £200m o ddifrod gael ei achosi i adeiladau oni fyddai unrhyw arian yn cael ei fuddsoddi mewn amddiffynfeydd.

Cafodd cam olaf y cynllun hwn i amddiffyn yr arfordir – a oedd werth £15.7m – ei gwblhau ym mis Hydref 2015, gyda chyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chyngor Sir Ddinbych.

Mae'r cynllun wedi lleihau'r risg o lifogydd arfordirol i oddeutu 2,700 o safleoedd, gan gynnwys 560 o fusnesau, ac mae wedi cynnig manteision ychwanegol drwy sicrhau tir ar gyfer ailddatblygiad manwerthu. Mae'r Rhyl eisoes wedi gweld manteision y gwaith a wnaed o amgylch yr afon a'r harbwr, wrth i fwy o bobl ymweld â'r ardal.

## Astudiaeth Achos Buddsoddiadau Allweddol

### The Mill, Caerdydd

Mae The Mill yn ddatblygiad tai gwerth £100m, a fydd yn trawsnewid safle diwydiannol gwag yng ngorllewin Caerdydd i fod yn bentref dinesig ag 800 o gartrefi.

Yn sgil y prosiect, bydd cartrefi y mae mawr eu hangen ar gael i'w prynu a'u rhentu – a'r rheini'n addas i amrywiaeth eang o aelwydydd – ar safle 53 erw yn Nhreganna a oedd yn arfer bod yn gartref i felin bapur Arjo Wiggins. Disgwylir y bydd mil o swyddi yn cael eu creu yn ystod y gwaith adeiladu, ynghyd â nifer sylweddol o brentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant eraill i'r gymuned leol.

Datblygiad newydd gan Tirion Group Limited (TGL) a'r partneriaid Lovell Partnerships Limited a Chymdeithas Tai Cadwyn yw The Mill, a bydd dros 50% o'r cartrefi ar y safle yn gartrefi fforddiadwy na fydd angen grant tai cymdeithasol ar eu cyfer. Bydd y prosiect yn gwneud cyfraniad enfawr at y gwaith o adfywio'r ardal, a bydd yn cynnwys cyfleusterau newydd i'r gymuned yng nghanolfan y gymdogaeth, a pharc ar lan yr afon a fydd yn cynnwys rhan newydd o Lwybr Elái. Hefyd fel rhan o'r prosiect, mae'r gwaith ar amddiffynfeydd llifogydd wedi sicrhau nad yw dros 600 o gartrefi yn Nhreganna mewn perygl o ddioddef llifogydd o afon Elái mwyach.

Hyd yma mae dros £30m wedi cael ei glustnodi i adfywio'r safle, ac mae hynny'n cynnwys cyllid sector preifat gan y Principality ar gyfer cyfalaf gweithio, seilwaith a chyllid adeiladu. Mae'r gwaith o adeiladu'r cartrefi fforddiadwy a'r cartrefi ar y farchnad agored yn mynd rhagddo'n dda, ac mae'r ddau fath yn boblogaidd iawn. Fe symudodd y teuluoedd cyntaf i mewn i'w cartrefi newydd ym mis Rhagfyr 2017.

## Astudiaeth Achos Buddsoddiadau Allweddol

### Campws Arloesi Abertawe

Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu Campws y Bae Prifysgol Abertawe, sydd werth £450m, yn 2013, ac mae'n safle 65 erw yng Nghastell-nedd Port Talbot i'r dwyrain o Abertawe. Mae'r prosiect yn cael ei gydnabod yn un o brosiectau mwyaf blaenllaw Ewrop ym maes yr economi wybodaeth, ac mae'r datblygiad pwysig hwn wedi bod yn bosibl diolch i £50m o gyllid gan Lywodraeth Cymru, £35m gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a £60m gan Fanc Buddsoddi Ewrop.

Mae'r campws yn cynnwys cyfleusterau ymchwil ac academaidd yn ogystal â llety i fyfyrwyr. Er y bydd y gwaith datblygu yn dal i fynd rhagddo tan 2020, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi cael ei gwblhau yn ystod cam cyntaf y broses adeiladu, ac fe agorwyd y campws ym mis Medi 2015.

Cafodd y campws ei adeiladu mewn llai na 26 mis, ac mae eisoes yn cael effaith sylweddol ar y rhanbarth wrth i Brifysgol Abertawe weld 20% o gynnydd yn nifer y staff a'r myfyrwyr, a 120% o gynnydd o ran y prosiectau ymchwil newydd a ddyfarnwyd ers 2012.

Dechreuodd datblygiadau ail gam Prifysgol Abertawe ym mis Ionawr 2016. Mae ail gam y datblygiadau yn cynnwys Campws y Bae a Champws Parc Singleton. Mae hynny'n cynnwys y Ffowndri Gyfrifiadurol a'r gwaith o ddatblygu llety i fyfyrwyr, ailgyflwyno adran cemeg a chyd-leoliad Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Astudiaeth Achos Buddsoddiadau Allweddol

### Parc Gwyddoniaeth Menai

Mae Parc Gwyddoniaeth Menai yn brosiect £20m sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru (£10m) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Bydd y Parc yn cefnogi'r economi yng Ngogledd Cymru drwy ddatblygu mentrau gwybodaeth.

Mae Parc Gwyddoniaeth Menai Cyf (M-SParc) o dan berchnogaeth lwyr Prifysgol Bangor, a bydd yn canolbwyntio ar y sectorau ynni carbon isel, yr amgylchedd a TGCh.  Mae gweledigaeth M-SParc dros 30 mlynedd yn seiliedig ar greu cyfleoedd i bobl leol gael swyddi hirdymor sy'n gofyn am lawer o sgiliau, datblygu amgylchedd rhannu gwybodaeth a chreu canolbwynt economaidd.

Bydd y Parc Gwyddoniaeth, sy'n rhan bwysig o uchelgais strategol Prifysgol Bangor i ddatblygu gwyddoniaeth yn y rhanbarth, yn bont rhwng cwmnïau o'r fath a gweithgareddau helaeth y Brifysgol yn dysgu ac yn ymchwilio ym maes gwyddoniaeth. Nod y prosiect yw creu clwstwr economaidd unigryw er mwyn hybu partneriaethau ymchwil gwyddonol a diwydiant uwch-dechnoleg yng Ngogledd-orllewin Cymru.

Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar sicrhau budd i'r gymuned, yn arbennig helpu gweithwyr proffesiynol i ddatblygu sgiliau, annog menywod i weithio yn y diwydiant adeiladu, a darparu cyfleoedd i bobl ifanc nad ydynt mewn swydd, addysg na hyfforddiant. Hefyd, mae'r prosiect yn cefnogi'r cynllun Galluogi Dim Gwastraff gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru.

Mae cyfanswm o £721m o gyllid yr UE naill ai wedi cael ei wario gan brosiectau seilwaith neu wedi'i ymrwymo iddynt ers mis Ebrill 2012. Mae hynny'n cynnwys:

- £355m i brosiectau seilwaith ar draws Cymru, gan roi cyfanswm o £658m o fuddsoddiad rhwng mis Ebrill 2012 a mis Rhagfyr 2015 drwy raglenni cronfeydd strwythurol yr UE 2007-2013;
- £366m o gyllid yr UE wedi'i ymrwymo i brosiectau seilwaith ar draws Cymru, gan roi cyfanswm o £740m o fuddsoddiad ers mis Ionawr 2014 dan gylch diweddaraf cronfeydd strwythurol yr UE, sy'n cwmpasu'r cyfnod 2014-2020 (gwariant hyd at 2023).

Mae'r buddsoddiadau hyn yn cynnwys gwerth £16.4m ar gyfer ail gam Rhaglen Gwella Gorsafoedd Cymru Llywodraeth Cymru sy'n werth £22m. Gyda'r arian hwn, cafodd gwaith ailadeiladu, uwchraddio ac adnewyddu ei wneud ar nifer o orsafoedd trenau fel Port Talbot Parkway, Aberystwyth, Rhyl a Phontypridd.

Mae dros £40m yn cael ei fuddsoddi mewn gwaith i uwchraddio'r A55 gan gynnwys dylunio ac adeiladu cyffyrdd, ffyrdd ymuno ac ymadael a phontydd. Bydd y cyllid hefyd yn cefnogi'r gwaith o ledu 2.1km o'r A55. Mae £23m arall yn cael ei fuddsoddi yn yr A40 yn sir Benfro i gefnogi'r gwaith o adeiladu 2.5 km o briffordd newydd i'r gogledd o Landdewi Felffre a gwaith gwella 2.5km o'r briffordd i'r gorllewin o Ffynnon Wood. Mae'r prosiect hwn hefyd yn cynnwys gwella cyfleusterau ar gyfer teithio di-fodur ar lwybrau beiciau newydd a llwybrau ceffylau newydd. Mae £38m o gyllid yr UE yn cefnogi rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol gan Lywodraeth Cymru sy'n werth £110m i adfywio canol trefi a'r ardaloedd o'u cwmpas ledled Cymru drwy adnewyddu ac ailddatblygu adeiladau a thir segur a danddefnyddir gan ddod â bywyd yn ôl iddynt.

Mae Banc Buddsoddi Ewrop wedi bod yn fuddsoddwr pwysig yng Nghymru hefyd, gan ategu rhaglenni cyllid yr UE, gan gynnwys buddsoddi mewn prosiectau mawr fel Campws Arloesi Bae Abertawe, a gwella mynediad at gyllid ar gyfer busnesau drwy Fanc Datblygu Cymru.

**Banc Datblygu Cymru**

Bydd Banc Datblygu Cymru yn cyfrannu at ddatblygu seilwaith yng Nghymru. Bydd yn dwyn ynghyd pob math o arian cyhoeddus a phreifat sydd werth dros £1bn, ac yn cryfhau ein gallu i fuddsoddi yn nyfodol tymor hir Cymru. Bydd y Banc Datblygu yn helpu busnesau, yn enwedig mentrau bach a chanolig, i gael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt er mwyn sefydlu eu hunain, cryfhau a datblygu. Bydd yn ceisio datgloi potensial economaidd yng Nghymru a gwella'r economi leol drwy gynnig cyllid cynaliadwy ac effeithiol, a helpu busnesau i ddod o hyd i'r partner priodol i ddenu cyllid preifat. Bydd y Banc Datblygu hefyd yn gwella'r broses o integreiddio cyngor a chefnogaeth o safon uchel drwy weithio'n agos gyda Busnes Cymru.

## 3. Lleihau costau cynnal a chadw a darparu seilwaith a sicrhau bod ein buddsoddiadau yn rhoi'r gwerth gorau am arian.

Rydym wedi safoni'r ffordd rydym yn cynnig sicrwydd busnes ac yn cyflawni cynlluniau ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dull mwy cyson wrth ddatblygu a gwerthuso achosion busnes; datblygu a gwella'r ffordd rydym yn defnyddio ein polisïau caffael a budd i'r gymuned; cryfhau ein dull o reoli asedau; monitro buddsoddiadau'n well a newid y ffordd rydym yn rheoli cynlluniau mawr.

I gyflawni hyn, rydym wedi:

- Sefydlu **rhwydwaith Gwell Achosion Busnes**. Mae'r rhwydwaith yn rhannu arferion gorau ar draws y sector cyhoeddus, yn cynnig cefnogaeth o fewn y sector ac ar draws y sector, ac yn datblygu arbenigedd. Mae'n eiddo ar y cyd i Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM, ac mae'n defnyddio'r arferion gorau yn y DU ar gyfer datblygu cynigion gwariant ar seilwaith yn y sector cyhoeddus. Daeth yn gynnyrch ag achrediad byd-eang yn 2012.

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl arweiniol yn y gwaith o reoli'r rhaglen, ac mae'n cadeirio'r byrddau rheoli a safonau a'r pwyllgor llywio rhyngwladol. Rydym hefyd wedi darparu hyfforddiant gwell achosion busnes i 6,500 o bobl ac, yn 2017, fe wnaethom gyhoeddi'r canllawiau diweddaraf.

- Cynnig mwy o sicrwydd a rheolaeth drwy broses rheoli risg a roddir ar waith ar gyfer rhaglenni'r Cynllun Buddsoddi, a phrosiectau gan ganolfan sicrwydd integredig. Mae'r ganolfan yn cynnig sicrwydd annibynnol ar gyfer rhaglenni a phrosiectau drwy ddarparu cynnyrch sicrwydd, fel adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Mae proses Gateway yn asesu rhaglenni/prosiectau yn erbyn nifer o ffactorau ar gamau allweddol yn ystod eu hoes. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gyflawni'r gwaith yn brydlon, yn unol â gofynion ansawdd a chostau, a sicrhau'r manteision a nodwyd ar gyfer y rhaglenni/prosiectau.
- Sefydlu polisi **budd i'r gymuned** yn y Cynllun Buddsoddi, gan gefnogi'r broses o gynnig cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yng Nghymru. Mae ein gwaith budd i'r gymuned yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac wedi creu cyfleoedd mewn cadwyni cyflenwi sy'n rhoi cyfle i fusnesau lleol gael gwaith gwerthfawr ar drefniant is-gontract. Yn 2017-18, roedd y fframweithiau neu'r contractau adeiladu werth £1.2bn, gyda 76% o gyflenwyr y contractau neu'r fframweithiau hynny yn dod o Gymru – 1% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y data diweddaraf ynghylch budd i'r gymuned a gafodd Gwerth Cymru gan y sector tai yn rhoi manylion am ganlyniadau'r contractau, a oedd werth dros £738m i gyd. Mae 83% wedi cael ei ail-fuddsoddi yng Nghymru, gan helpu 1,440 o bobl i gael gwaith neu hyfforddiant drwy ddarparu dros 39,228 o wythnosau o hyfforddiant

Mae ein prosiectau trafnidiaeth mawr yn parhau i ddwyn amrywiaeth o fanteision cymunedol wrth eu rhoi ar waith. Ar y prosiect gwaith deuoli'r A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd, mae 70% o wariant y prosiect wedi bod gyda chwmnïau o Gymru, daw 75% o'r gweithlu o Gymru, gan gynnwys 65 prentis. Fe wnaethom benodi Uned Ymchwil i Economi Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd i asesu effaith gwariant y prosiect yn ystod y cyfnod cyflawni ar economi Cymru. Mae asesiad yr Uned yn rhoi cyfle i ni ddeall sut mae gwariant yn gysylltiedig â llif nwyddau a gwasanaethau ledled Cymru a sut mae gwariant ym maes adeiladu yn arwain at fanteision economaidd-gymdeithasol yn ardaloedd yr awdurdodau lleol cyfagos. Mae'r gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yma yn dangos bod pob £1 sydd wedi'i gwario wedi creu dros £1.70 o fantais i economi Cymru.

- Ym mis Ionawr 2018, fe wnaethom ddiweddaru **canllawiau i helpu i gael gafael ar ddur o Gymru a'r DU mewn prosiectau seilwaith ac adeiladu yng Nghymru**. Mae'r canllawiau hyn yn helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ymateb i argymhellion yn y ddogfen *Caffael Cyhoeddus o Ddur – Adroddiad ar ofynion dur sector cyhoeddus Cymru yn y dyfodol*, a chapasiti a gallu'r sector dur (2016). Mae'r canllawiau'n canolbwyntio ar wella'r broses o gaffael dur er mwyn gweld beth fydd y galw yn y dyfodol, gan sicrhau mai ansawdd nid y gost isaf sy'n llywio'r broses, a bod y gadwyn gyflenwi yn gwbl eglur. Rydym eisoes yn gweld canlyniadau'r dull gweithredu hwn, er enghraifft, roedd 89% o'r bariau atgyfnerthu dur a ddefnyddiwyd ym mhrosiect Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn dod o Gymru.
- Fe wnaethom gyflwyno **Datganiad Polisi Caffael Cymru** a oedd yn torri tir newydd. Cafodd ei gyhoeddi am y tro cyntaf yn 2012, a'i ddiwygio a'i gryfhau yn 2015, ac mae'n llywio'r ffordd rydym yn gweithredu o ran caffael cyhoeddus yng Nghymru. Erbyn hyn, mae Cymru yn cael ei chydnabod yn esiampl dda yn y DU ac yn Ewrop am ei pholisi caffael blaengar.

## Astudiaeth Achos Buddsoddiadau Allweddol



# Cefnffyrdd yr A483/A489, y Drenewydd, Powys

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £95m i wella'r cefnffyrdd A483/A489 yn y Drenewydd, sy'n rhan o'r coridorau trafnidiaeth strategol rhwng y gogledd a'r de a rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Maent yn cysylltu Gogledd a De Cymru, a Chanolbarth Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Mae'r Drenewydd yn fan cyfyng ar y rhwydwaith, ac mae cyffordd yr A483 a'r A489 yn dioddef tagfeydd traffig yn rheolaidd. Mae hyn yn rhwystro datblygiadau pellach yn y Drenewydd. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith economaidd ehangach y byddai ffordd osgoi arfaethedig y Drenewydd yn ei chael ar yr economi leol, a gwelwyd y byddai'r ffordd osgoi yn cael gwared ar y prif ffactor sy'n atal twf economaidd yn y Drenewydd.

Mae'r cynllun yn gwella'r cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de, a bydd hefyd yn gwella diogelwch yn sylweddol drwy dynnu cerbydau uchel sy'n cario nwyddau trwm a cherbydau amaethyddol o ardaloedd preswyl, a darparu llefydd pasio ar hyd y ffordd osgoi. Bydd y cynllun hefyd yn lleihau'r tagfeydd traffig, a fydd yn gwella mynediad at swyddi a gwasanaethau. Byddai hynny, yn ei dro, yn helpu i leihau'r cyfyngiadau economaidd yn y Drenewydd.

Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu ym mis Chwefror 2016, yn dilyn ymchwiliad lleol cyhoeddus. Mae dros 50% o'r gwaith cloddio wedi'i gwblhau, ac mae holl strwythurau'r bont wrthi'n cael eu hadeiladu. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2018/ dechrau 2019.

Mae'r cynllun wedi rhoi llawer o bwyslais ar hyfforddi, cyflogi a recriwtio'n lleol, gan gynnwys prentisiaethau. Mae dros £21m wedi cael ei wario hyd yma wrth i fusnesau yng Nghymru ddarparu nwyddau a gwasanaethau. O'r arian hwnnw, mae £6m wedi cael ei wario ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

# Astudiaeth Achos Buddsoddiadau Allweddol



## Ysgol Bro Teifi, Llandysul, Ceredigion

Mae rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn gofyn i adeiladau newydd arbed ynni a lleihau allyriadau carbon gymaint â phosib.

Agorodd Ysgol Bro Teifi ei drysau ym mis Medi 2016, a dyma'r ysgol cyfrwng Cymraeg gyntaf i gael ei hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer myfyrwyr rhwng 3 a 19 oed. Cafodd yr ysgol sy'n werth £29.7m ei hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Ceredigion.

Roedd y prosiect yn dod â phedair ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd at ei gilydd ar safle newydd, ac mae wedi arwain at ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon

- y defnydd blynyddol o drydan wedi lleihau o 308 kWh/$m^2$ i 38.29kWh/$m^2$ – gostyngiad o 88%;
- y defnydd blynyddol o danwyddau ffosil wedi lleihau o 134 kWh/$m^2$ i 81.03kWh/$m^2$ – gostyngiad o 40%;
- a llai o allyriadau carbon (wedi lleihau o 582,673kg/$CO_2$ y flwyddyn i 370,944Kg/$CO_2$ y flwyddyn – gostyngiad o 36%.

Rydym wedi dangos ein polisi parhaus o ddefnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi arferion busnes moesegol, er mwyn helpu i wneud yn siŵr bod Cymru yn lle da i weithio ac i wneud busnes ynddo. Llywodraeth Cymru oedd y gyntaf yn y DU i weithredu yn erbyn cosbrestrau, gan gyhoeddi canllawiau yn 2013. Cyhoeddodd ragor o ganllawiau yn 2014 ynghylch arferion cyflogaeth ar brosiectau a ariennir gan y cyhoedd, gan hyrwyddo mesurau i ofalu bod gweithwyr yng Nghymru yn cael eu trin yn deg a gyda pharch. Arweiniodd y camau hyn at ddatblygu *Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi* yn 2016, sy'n sicrhau bod gweithwyr sy'n rhan o gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yn cael eu trin yn deg. Mae pecyn sy'n cynnwys canllawiau ymarferol ar bob pwnc yn dod gyda'r cod, a chafodd ei greu er mwyn helpu i sicrhau bod ymrwymiadau'r cod yn cael eu rhoi ar waith yn gymesur gan ofalu nad yw sefydliadau llai o dan anfantais.

- Ym mis Ionawr 2018, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno polisi a chanllawiau i gefnogi taliadau teg a phrydlon yn holl gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus, drwy bolisi newydd ar gyfer **Cyfrifon Banc Prosiect**. Mae hyn yn galluogi cyrff yn y sector cyhoeddus i wneud taliadau uniongyrchol i is-gontractwyr a chwmnïau bach ar hyd y gadwyn gyflenwi am y gwaith sydd wedi'i gwblhau, yn hytrach na'u bod yn gorfod aros i gael eu talu gan y prif gontractwyr.
- Mae'r **Canllaw ar Gyflwyno Cynnig ar y Cyd** wedi cael ei roi ar waith ar ddau gytundeb fframwaith adeiladu mawr a sefydlwyd yn 2015. Y Rhaglen Gwaith Allanol ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru gan Gyngor Caerffili sy'n werth £21m, a fframwaith adeiladu cydweithredol gweithgor Cyfalaf Ysgolion De-ddwyrain Cymru Cyngor Rhondda Cynon Taf sydd werth £500m. Drwy ddilyn y canllawiau – a chydweithio'n gynnar â'r farchnad a sicrhau strategaethau lotiau priodol yn benodol – llwyddodd y ddau awdurdod i wneud yn siŵr bod busnesau lleol yn ymwybodol o hyd a lled y gwaith angenrheidiol, y cyfleoedd i gael contractau, ac y byddai cynigion ar y cyd yn cael eu croesawu. Sefydlwyd consortia newydd o fusnesau yng Nghymru sydd wedi llwyddo i gael lle ar y fframweithiau, ac wedi llwyddo i ennill tendrau am gontractau o dan y cytundebau fframwaith hynny.
- Parhau i ddatblygu ein ffordd o **reoli asedau**, gan gynnwys
  - Cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael ar gronfa ddata'r Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth Electronig (e-PIMS) am asedau yn y sector cyhoeddus, a gwella ansawdd yr wybodaeth honno. Mae'r gronfa ddata'n cynnwys llawer mwy o wybodaeth am eiddo erbyn hyn – gyda nifer y cofnodion wedi cynyddu o 11,500 ym mis Mawrth 2012 i 23,300 ym mis Ebrill 2018 – ac mae wedi cael ei datblygu i gynnwys grŵp ehangach o bartneriaid, gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
  - Lansio Space Cymru ym mis Ionawr 2015 – cronfa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd, ac yn dangos yr asedau eiddo a thir sydd ar gael gan y sector cyhoeddus.
  - Erbyn hyn, mae'r holl asedau tir ac eiddo y mae Gweinidogion Cymru yn berchen arnyn nhw'n uniongyrchol yn cael eu rheoli'n unol â'r egwyddorion a'r amcanion yn Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol 2016-2021 Llywodraeth Cymru.
  - Rydym yn gweithio gyda'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol traws-sector er mwyn galluogi a dylanwadu ar sefydliadau'r sector cyhoeddus i fabwysiadu dull ar y cyd i reoli asedau. Dangosodd Astudiaeth Beilot Cwm Taf sut byddai modd defnyddio'r sylfaen o asedau tir ac adeiladau i gefnogi twf economaidd.
  - Llwyddodd Strategaeth Leoli 2010-15 Llywodraeth Cymru i sicrhau £19.3m o arbedion gros, ac mae strategaeth 2015-20 ar y trywydd iawn i sicrhau arbedion gros pellach, sydd tua £3.5m.

Mae seilwaith newydd a gwell wedi arwain at arbedion o ran carbon. Mae ein Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn enghraifft o hyn. Disgwylir y bydd pob prosiect yn

- cael sgôr rhagorol yn gyffredinol o dan fframwaith asesu Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Mae BREEAM yn berthnasol i strwythurau adeiladau newydd neu adeiladau ar eu pen eu hunain, sydd â gwasanaethau uniongyrchol eu hunain (dŵr, nwy, trydan);
- cael sgôr 'A' ar gyfer effeithlonrwydd ynni ar y dystysgrif perfformiad ynni (EPC) drwy gynnwys nodweddion dylunio addas i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon yn yr adeilad, a defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy pan fydd yn briodol;
- yn llwyddo i gyrraedd targed ailgylchu o 15%.

Hefyd, mae asesiad ar ôl y gwaith adeiladu wedi cael ei ddatblygu gydag Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, er mwyn gallu gwerthuso a rhoi adborth ar berfformiad adeilad yr ysgol er mwyn sbarduno rhagor o welliannau.

---

## 4. Sefydlu a chynnal system newydd o fonitro gwariant ar seilwaith strategol mawr yng Nghymru, gan wella rheolaeth a phresenoldeb cyhoeddus.

Yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn 2012, mae diweddariadau wedi cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ynghylch y llif o brosiectau – mae'r un diweddaraf wedi'i gyflwyno fel atodiad i'r adroddiad hwn. Mae diweddariadau am y llif o brosiectau yn rhoi darlun cyfredol o'r buddsoddiadau seilwaith sydd ar y gweill yng Nghymru. Mae hynny'n help wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn y sector preifat a chyhoeddus, yn hwyluso cynlluniau strategol ac yn hyrwyddo cydweithio. Mae'r diweddariadau hefyd yn rhoi gwybodaeth i randdeiliaid am yr hyn sy'n digwydd.

Gan weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat, rydym yn gwella'r llif o brosiectau sydd ar gael ar gyfer pob diweddariad. Roedd y cyntaf – a gyhoeddwyd yn 2012 – yn rhestru 73 o gynlluniau Llywodraeth Cymru, a oedd werth tua £4bn i gyd. Ers hynny, mae'r llif o brosiectau wedi cryfhau ac wedi ymestyn i gynnwys manylion am fuddsoddiadau seilwaith ar draws Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a buddsoddiad preifat yn y sectorau ynni, trenau a dŵr. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar wneud yr wybodaeth yn fwy hwylus i bawb, gan gyhoeddi'r llif o brosiectau ar-lein mewn ffurfiau gwahanol. Mae'r fersiwn ddiweddaraf wedi cael ei mireinio ymhellach er mwyn gwella ansawdd a diwyg yr wybodaeth.

Mae cydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid wedi bod yn rhan hanfodol o'r cynnydd a wnaed. Yn sgil hynny, mae'r llif presennol o brosiectau yn cynnwys llawer mwy o fanylion am dros 350 o gynlluniau, sydd werth tua £42bn.

Mae'r Cynllun Buddsoddi a'r llif cysylltiedig yn rhoi manylion prosiectau o arwyddocâd cenedlaethol (dros £15m); fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'n seilwaith cyfalaf yn cael ei chyflawni drwy brosiectau ar raddfa lai. Cesglir data o bob portffolio Gweinidogol i fonitro buddsoddiad cyfalaf presennol (dros £500k) ar draws Cymru. Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall ble a sut mae'n prosiectau seilwaith yn mynd rhagddynt, ac yn helpu i lunio ein rhaglenni seilwaith ar gyfer y dyfodol.

## Sicrhau canlyniadau i Gymru

### Buddsoddiadau allweddol

Er bod ein cyllideb cyfalaf wedi cynyddu fesul cam, heb gynnwys trafodiadau ariannol, bydd y gyllideb 20% yn llai mewn termau real erbyn 2019-20 nag yr oedd ar ei huchaf yn 2009-10. Mae natur ein cyllideb cyfalaf wedi newid hefyd – mae Llywodraeth y DU wedi gosod mwy o gyfyngiadau ar y ffordd mae cyfalaf yn cael ei defnyddio. Yn 2018-19, mae 15% o'n cyllideb cyfalaf yn gyfalaf ar ffurf trafodiadau ariannol. Dim ond ar gyfer benthyciadau

a buddsoddiadau ecwiti y gellir defnyddio'r cyfalaf hwnnw, ac mae'n rhaid ei dalu'n ôl i Drysorlys EM.

**Iechyd**

- Rydym wedi buddsoddi £1.6bn yn rhaglen cyfalaf Cymru gyfan y GIG er mwyn datblygu a chynnal ystad GIG Cymru. Dyma rai o'r cynlluniau arwyddocaol: datblygu Ysbyty Plant Arch Noa, yr Uned Acíwt i Oedolion yn Llandochau, y gwaith sylweddol sydd ar y gweill yn Ysbyty Glan Clwyd, a cham 1b y gwaith yn Ysbyty Treforys.
- Rydym hefyd wedi buddsoddi dros £48m er mwyn cynnal fflyd o ambiwlansys modern.

**Yr Amgylchedd**

- Rydym wedi buddsoddi £173m mewn cynlluniau llifogydd ac erydu arfordirol ym mhob cwr o Gymru, gan gynnwys £16m gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Dyma rai o'r cynlluniau arwyddocaol: Glan y Môr Bae Colwyn, Gorllewin y Rhyl, Cwm Tawe Isaf a'r Borth.
- Cyhoeddwyd y Rhaglen Rheoli Peryglon Arfordirol ym mis Rhagfyr 2014 i gefnogi rhaglen werth £150m o fuddsoddiadau gwerth cyfalaf mewn prosiectau rheoli peryglon arfordirol. Cafodd y rhaglen ei sefydlu i ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd ac i reoli'r peryglon presennol a'r peryglon yn y dyfodol.

**Ynni**

- Mae Rhaglen Seilwaith Gwastraff Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu £750m – a ddarperir drwy bartneriaethau cyhoeddus-preifat – i helpu awdurdodau lleol i gynnig gwasanaeth digonol ar gyfer trin gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol er mwyn cyrraedd targedau cenedlaethol statudol o ran ailgylchu a dargyfeirio o safleoedd tirlenwi. Ein lefelau ailgylchu trefol yng Nghymru yw'r y gorau yn y DU, yr ail yn Ewrop a'r trydydd yn y byd.
- Mae Cynllun Nyth Cartrefi Clyd – gyda chyfanswm buddsoddiad o dros £240m hyd at fis Mawrth 2017 – wedi cynghori dros 98,000 o bobl ac wedi gwella effeithlonrwydd ynni tua 45,000 o gartrefi ar gyfer y rheini ar incwm isel neu sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

**Addysg**

- Mae £1.3bn o'r £1.4bn sydd wedi'i ddyrannu i Fand A rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi cael ei fuddsoddi hyd yma. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £590m hyd yma, sy'n cynnwys £440m o gymorth ar ffurf cyfalaf a £150m o gymorth ar ffurf refeniw drwy'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol. Mae awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach wedi buddsoddi £616m. Mae hyn yn cynrychioli'r buddsoddiad mwyaf yn ein hysgolion a'n colegau ers y 1960au.
- Mae dros 160 o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo, gyda 100 wedi'u cwblhau yn barod. Mae'r rhain yn cynnwys Campws Dysgu Treffynnon yn sir y Fflint, Ysgol Bae Baglan ym Mhort Talbot; Ysgol Uwchradd Eastern yng Nghaerdydd, a'r ysgol cyfrwng Cymraeg gyntaf i gael ei hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer yr oedran 3-19 oed yn Llandysul, Ceredigion.

**Tai**

- Yn ystod tymor y Cynulliad blaenorol, fe wnaethom fuddsoddi dros £1.2bn o gyllid cyfalaf a £120m o gyllid refeniw er mwyn darparu dros 11,500 o gartrefi fforddiadwy. Mae gennym darged i ddarparu 20,000 ychwanegol o gartrefi fforddiadwy erbyn 2020-21. I gyflawni hyn, rydym wedi clustnodi £1.7bn o gyfalaf a £260m o refeniw ychwanegol.
- O'r £1.7bn o gyllid, mae £714m wedi'i ddyrannu (yn 2017-18 ac yn 2018-19) i ddarparu a gwella miloedd o gartrefi ledled Cymru ar draws amrywiol raglenni, gan gynnwys Grant Tai Cymdeithasol; Rhentu i Brynu; Help i Brynu; y Gronfa Gofal Integredig a'r Rhaglen Tai Arloesol.

## Astudiaeth Achos Buddsoddiadau Allweddol

# Fferm Wynt ar y Tir Gorllewin Coedwig Brechfa

Mae'r fferm wynt 57MW hon, sy'n eiddo i Innogy, wrthi'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd 10km i'r gogledd-ddwyrain o Gaerfyrddin. Mae'r fferm wynt 28 tyrbin yn cael ei hadeiladu ar dir coediog sy'n cael ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a disgwylir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn mis Mehefin 2018.

Pan fydd y fferm wynt i gyd ar waith yn ystod haf 2019, bydd yn cynhyrchu digon o drydan adnewyddadwy i ddiwallu anghenion tua 38,800 o aelwydydd cyfartalog yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn.

Bydd fferm wynt Gorllewin Coedwig Brechfa yn darparu cronfa gymunedol a fydd werth £459,200 y flwyddyn.  Bydd y cyllid hwn, sy'n gysylltiedig â mynegai, ar gael drwy gydol oes y fferm wynt – hyd at 25 mlynedd yn ôl y disgwyl – a fydd yn golygu cronfa werth £11m a mwy i'w ail-fuddsoddi yn y gymuned.

Mae'r prosiect yn un o blith nifer o brosiectau sy'n cael eu datblygu fel rhan o waith Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr ystad gyhoeddus yn cynnig cymaint o fanteision â phosibl i Gymru. Nod rhaglen Darparu Ynni Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod y gwaith o reoli ystad goed Llywodraeth Cymru yn gynaliadwy yn integreiddio datblygiadau ym maes ynni, gan weithio gyda datblygwyr i sicrhau ei bod yn gwneud cyfraniad sylweddol at dargedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.

Mae Parciau Ynni hefyd yn hybu technolegau solar, ynni dŵr a storio yn ogystal â thechnolegau ynni gwynt ar y tir.

## Astudiaeth Achos Buddsoddiadau Allweddol

# Glan y Môr Bae Colwyn

Y cynllun £11m hwn oedd y cyntaf o'i fath i elwa o'r broses o uno cyllid a'r cydweithio rhwng adfywio a rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae hynny wedi arwain at arbedion a oedd werth dros £2m. Yn sgil hyn, roedd modd ariannu prosiect mwy, a chyflwyno cynllun adfywio ac amddiffynfeydd arfordirol amlbwrpas a oedd yn cysylltu'r gwelliannau i'r promenâd a'r gwaith o greu canolfan chwaraeon dŵr (Porth Eirias).

Defnyddiwyd cyfuniad o dywod a chreigiau mewn gwahanol leoliadau, gan greu traeth parhaol newydd. Mae prif nodweddion y prosiect yn cynnwys bwyty newydd a chaffi, gyda'r cogydd adnabyddus, Bryn Williams yn denant.  Mae menter fusnes newydd wedi creu canolfan hyfforddiant chwaraeon dŵr gyda lle i gadw cychod a chyfleusterau newid a sychu, lle ychwanegol i gynnal cyfarfodydd a sesiynau dysgu. Mae'r adeilad hefyd yn creu trydan ei hun drwy ddau dyrbin gwynt.

Yn rhan o'r cynllun hefyd, mae llithrffordd i lansio cychod, maes parcio ar gyfer ceir, ôl-gerbydau a beiciau, man gwylio hwylus ar do'r adeilad, offer chwarae i blant, promenâd newydd sy'n cynnig mynediad i'r traeth o bob rhan o'r promenâd, yn ogystal â seddi ychwanegol a wal fôr newydd.

**Trafnidiaeth**

- Rydym wedi buddsoddi £1.8bn mewn cynlluniau trafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys y gwaith parhaus i ddeuoli'r A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd, y gwelliannau parhaus i goridor yr A55 ac adeiladu ffordd osgoi'r Drenewydd.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu oddeutu £13m y flwyddyn i gefnogi'r seilwaith teithio llesol ledled Cymru sy'n gwireddu dyheadau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013; mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i adeiladu 16 milltir o lwybr beicio Dyffryn Tywi. Ym mis Rhagfyr 2017 cafodd £9m arall ei ddyrannu ledled Cymru i brosiectau teithio llesol, gan gynnwys y cynllun Nextbike yng Nghaerdydd, y disgwylir iddo fod y cynllun llogi beiciau mwyaf yng Nghymru.

**Datblygu Economaidd**

- Rydym wedi buddsoddi £221m mewn ardaloedd menter (gan gynnwys £130m ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth, fel ffordd gyswllt Llangefni a deuoli'r A40).
- Rydym hefyd wedi buddsoddi £185m ym mand eang y genhedlaeth nesaf (£30m gan Lywodraeth Cymru, a'r gweddill gan Lywodraeth y DU ac arian gan yr UE) gan wella mynediad busnesau a chartrefi at y rhyngrwyd. Ers 2013, mae argaeledd band eang cyflym iawn wedi mwy na dyblu ledled Cymru, ac mae Ofcom wedi adrodd mai Cymru sydd â'r argaeledd uchaf o fand eang cyflym iawn o blith y gwledydd datganoledig.

**Adfywio**

- Yn ystod tymor y Cynulliad blaenorol, y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid oedd prif raglen adfywio Llywodraeth Cymru, gan fuddsoddi £124m.
- Hyd yma mae'r rhaglen wedi denu £320m o fuddsoddiad ychwanegol; wedi creu 1,851 o swyddi, wedi helpu 7,768 o bobl i ddod o hyd i waith ac wedi adeiladu 914 o gartrefi fforddiadwy a 961 o gartrefi ar gyfer y farchnad agored.
- Mae £20m ychwanegol wedi cael ei fuddsoddi mewn 32 tref drwy raglen Benthyciadau Canol Trefi, a fydd yn denu hyd at £60m o fuddsoddiad dros y 15 mlynedd nesaf wrth i'r benthyciadau gael eu hailfuddsoddi.

# Pennod tri: Ein cynlluniau a'n blaenoriaethau buddsoddi

Mae'r bennod hon yn egluro sut rydym yn parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed ers i'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (y Cynllun Buddsoddi) gael ei gyhoeddi ac ar ei nodau a'i flaenoriaethau gwreiddiol, gan gadw at ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn ynghyd ag ymrwymiadau'r rhaglen lywodraethu, **Symud Cymru Ymlaen** a'n strategaeth genedlaethol **Ffyniant i Bawb**. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gyfrannu at ein nodau llesiant cyffredin.

## Y blaenoriaethau buddsoddi yn ystod tymor y Cynulliad hwn

***Symud Cymru Ymlaen* a *Ffyniant i Bawb***

Mae egwyddorion a nodau craidd y Cynllun Buddsoddi mor berthnasol heddiw ag yr oeddent pan gyhoeddwyd ein gweledigaeth yn 2012. Mae'n bwysicach nag erioed i ni fanteisio ar bob ysgogiad sydd ar gael i roi hwb i gyllid cyfalaf a blaenoriaethu'n buddsoddiadau mewn ffyrdd sy'n cyflawni'r manteision mwyaf yn unol â'n blaenoriaethau.

Rydym yn cymryd camau i ail-gysoni ein buddsoddiad mewn seilwaith gyda'r hyn sydd yn *Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb*, gan ganolbwyntio ar y meysydd a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl Cymru.

Mae hyn yn cynnwys pum maes blaenoriaeth a nodwyd yn *Ffyniant i Bawb* a fydd, yn ein barn ni, yn cyfrannu orau at sicrhau ffyniant a lles tymor hir – tai; gofal cymdeithasol; blynyddoedd cynnar; iechyd meddwl; sgiliau a chyflogadwyedd. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r cyfnodau a'r amgylchiadau ym mywydau pobl pan fydd angen cymorth arnynt fwyaf a phan fydd y cymorth priodol yn gallu cael yr effaith fwyaf ar eu bywyd.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r ffordd rydym yn dyrannu cyllid i brosiectau cyfalaf yn seiliedig ar sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer y buddsoddiad a wnawn, a bydd yn parhau i fod felly, ac yn cydnabod bod gan wahanol rannau o Gymru anghenion gwahanol sy'n newid dros amser.

Nid dim ond am yr economi, ac effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd mae hyn, ond am sut mae ein penderfyniadau ynghylch y seilwaith yn cefnogi'r gwaith o sicrhau manteision lluosog yn unol â'n hamcanion llesiant.

Os ydym am lwyddo i wireddu potensial llawn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i ni ystyried sut mae ein buddsoddiadau'n cael eu gwneud. Bydd angen i ni ganolbwyntio ar integreiddio a chydweithio rhwng gwasanaethau; ar atal yn gynnar a defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar bobl er mwyn sicrhau canlyniadau yn yr hirdymor. Mae'r ystyriaethau hyn yn ganolog i'n penderfyniadau ar fuddsoddi mewn seilwaith.

Mae ein rhaglen i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn enghraifft o sut rydym yn defnyddio buddsoddiad mewn seilwaith i ddatblygu cymunedau lleol mewn modd integredig a chydweithredol. Mae'r rhaglen yn annog ac yn cefnogi defnydd cymunedol o asedau ysgolion ac yn cynnig cyfleoedd i gyd-leoli gwasanaethau. Rydym yn edrych ar ffafriol hefyd ar gynigion buddsoddi sy'n ceisio cyfuno adnoddau a chynllunio ar draws batrymau rhanbarthol, er enghraifft drwy fargeinion dinasoedd a thwf.

**Buddsoddi mewn seilwaith i arbed**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus Cymru rhag effeithiau gwaethaf cyni.

Ond gallai'r pwysau ar gyllideb Llywodraeth Cymru fod yn fwy fyth yn y dyfodol, os bydd y cyfnod o gyni'n parhau ac wrth i'r galw am owasanaethau cyhoeddus – yn arbennig y GIG a gofal cymdeithasol – gynyddu.

Wrth i ni ystyried sut ac ymhle i fuddsoddi ein hadnoddau cyfalaf yn y dyfodol, un o'r ffactorau pwysig fydd a yw'r cynlluniau'n rhyddhau arbedion refeniw yn y tymor canolig i'r tymor hwy, ac yn helpu i liniaru pwysau yn y dyfodol ar ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol

**Datgarboneiddio**

Ffactor pwysig arall i'w ystyried fydd effaith carbon y cynigion seilwaith.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ddeddf bwysig, yn cynnig llwybr datgarboneiddio tymor hir ar gyfer Cymru ac mae'n gosod targed cyfreithlon i sicrhau o leiaf 80% yn llai o allyriadau erbyn 2050. Mae'n ei gwneud yn ddyletswydd i Weinidogion Cymru osod cyfres o dargedau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040.

Os ydym am lwyddo i gyrraedd ein targedau, rhaid i ni newid i economi carbon isel. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i sicrhau twf gwyrdd; swydd newydd o ansawdd a manteision ehangach fel llefydd gwell i fyw a gweithio ynddynt; aer a dŵr glân a chanlyniadau iechyd gwell. Byddwn yn ceisio buddsoddi mewn rhaglenni carbon isel ac yn cymryd camau i sicrhau y bydd y penderfyniadau a wnawn yn awr am ein seilwaith tymor hir yn cefnogi ein fframwaith lleihau allyriadau.

**Cyflogaeth foesegol**

Byddwn ni'n disgwyl i unrhyw fuddsoddiad a wnawn fod yn gyson â'n polisi caffael er budd Cymru a chan helpu cyflogadwyedd.

Ym mhennod pedwar rydym yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gefnogi cwmnïau Cymru drwy ein polisi caffael a sut rydym yn disgwyl i fusnesau chwarae eu rhan o ran datblygu cenedl gwaith teg, buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu gweithlu medrus a gwreiddio ein dull o sicrhau manteision cymunedol.

Nod ein *Cynllun Cyflogadwyedd* yw cau'r bwlch rhwng cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd Cymru a chyfartaledd y DU o fewn 10 mlynedd; lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET); cynyddu nifer y bobl anabl mewn gwaith a chael gwared ar y bwlch cymwysterau rhwng Cymru a gweddill y DU.

Mae gan gynlluniau seilwaith rôl bwysig i'w chwarae yn yr agenda hon gan eu bod yn cynnig cyfleoedd hyfforddi, sy'n gallu newid cyfleoedd cyflogaeth pobl yn y farchnad lafur mewn ffordd gadarnhaol, ac yn golygu eu bod mewn sefyllfa gryfach ar gyfer swyddi eraill pan ddaw prosiectau i ben.

## Cynlluniau buddsoddi ar gyfer gweddill y tymor hwn

**Cyllido ein buddsoddiadau mewn seilwaith**

Rydym wedi cyhoeddi cynlluniau cyfalaf hyd at 2020-21 – y cyfnod mae gennym ni setliad ar ei gyfer. Rydym yn bwriadu cyllido ein buddsoddiadau cyfalaf ar gyfer gweddill y tymor hwn drwy wneud y defnydd gorau posib o'r £6.5bn o arian cyfalaf i sicrhau ein bod yn bodloni ymrwymiadau'r rhaglen lywodraethu ac yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus hanfodol i Gymru.

Mae'r gostyngiad i'n cyllideb cyfalaf yn golygu bod angen i ni barhau i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o lenwi'r bwlch cyfalaf. Yr egwyddor sy'n sail i bob gwariant cyfalaf yng Nghymru  yw y byddwn bob amser yn defnyddio'r ffurfiau rhataf o gyfalaf i'r eithaf cyn symud ymlaen at ffynonellau eraill.

Fe wnawn ni ddefnyddio cyfalaf confensiynol bob amser, gan gynnwys cyfalaf ar ffurf trafodion ariannol yn gyntaf, gan sicrhau ein bod yn defnyddio pob ceiniog sydd ar gael i Gymru, i ariannu ein hymrwymiadau o ran y seilwaith. Yr ail ffynhonnell o gyllid cyfalaf rydym yn gallu manteisio arni yw'r cronfeydd Ewropeaidd sy'n dod i Gymru.

Mae'n bosibl y bydd Metro De Cymru sy'n rhan o Fargen Prifddinas-ranbarth Caerdydd, er enghraifft, yn elwa o gael hyd at £106m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Wedyn, byddwn yn defnyddio'r pwerau benthyca newydd rydym wedi'u sicrhau i Gymru. Mae ein cyllideb yn ystyried yr holl fenthyciadau cyfalaf sydd ar gael i ni yn ystod cyfnod y gyllideb hon hyd at 2021 i ariannu ein rhaglen seilwaith.

Ein ffynhonnell nesaf o gyfalaf fydd cefnogi benthyca mewn cynlluniau cyhoeddus eraill, gan helpu i leddfu'r pwysau cyllidebol ar gyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Byddwn yn defnyddio'r ffynonellau hyn i helpu i gyrraedd ein targed o gael 20,000 o dai fforddiadwy yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Ein ffynhonnell olaf o gyllid gyfalaf yw cyllid arloesol, gan gynnwys y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae'r Model hwn wedi'i ddatblygu yng Nghymru a chaiff ei ddefnyddio i gyflawni rhaglen waith gwerth £1bn arall, gan gynnwys Canolfan Ganser newydd Felindre, rhan sylweddol o Fand B Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, a rhannau 5 a 6 o Ffordd Blaenau'r Cymoedd.

### Buddsoddiadau sydd ar y gweill

Mae ein cynlluniau buddsoddi sydd ar y gweill wedi'u nodi mewn llif o brosiectau sy'n atodiad i'r adolygiad hwn. Mae'n rhoi gwybodaeth am brosiectau Llywodraeth Cymru; cynlluniau a ariennir gan lywodraeth leol a buddsoddiad preifat yn y sectorau dŵr, ynni a rheilffordd. Hefyd, mae'n cynnwys prosiectau sy'n cael cymorth gan raglen cronfeydd strwythurol yr UE hyd at 2020. Mae'n rhoi manylion dros 350 o fuddsoddiadau sy'n werth oddeutu £42bn.

Mae hyn yn cynnwys ein prif ymrwymiadau yn *Symud Cymru Ymlaen* a *Ffyniant i Bawb* fel darparu 20,000 o dai fforddiadwy ar draws Cymru, creu Metro De Cymru a datblygu cynllun ar gyfer Metro Gogledd-ddwyrain Cymru; buddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig fel Canolfan Gofal Integredig Aberteifi; buddsoddi mewn ysgolion newydd neu eu hadnewyddu fel rhan o'n rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif, dod â phobl ynghyd yn ddigidol drwy fand eang cyflym iawn ac, yn amodol ar ganlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus, darparu ffordd liniaru'r M4.

Isod, gwelir rhagor o fanylion am ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad, a sut rydym yn cysoni ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn well â blaenoriaethau'r llywodraeth ac yn defnyddio ffordd newydd o weithio.

## Buddsoddiadau newydd

Ochr yn ochr â chyhoeddi'r adolygiad canol cyfnod o'r Cynllun Buddsoddi, byddwn yn darparu cyllid cyfalaf newydd o £266m i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau cyfalaf yn ystod y tair blynedd nesaf.

Mae'r buddsoddiadau ychwanegol yn cynnwys:

- £60m dros dair blynedd i gyflymu'r gwaith o greu llwybrau teithio llesol er mwyn cysylltu ardaloedd preswyl â gwasanaethau a safleoedd cyflogaeth ac addysg. Mae hyn yn elfen ganolog o sawl un o'n hymrwymiadau yn *Symud Cymru Ymlaen* a *Ffyniant i Bawb*. Mae'n cefnogi ein hymdrechion i leihau allyriadau carbon a gwella ansawdd aer, ac yn cynnwys gweithgarwch corfforol ym mywydau dyddiol pobl gan arwain at fanteision iechyd ehangach.
- £60m dros dair blynedd ar gyfer rhaglen adnewyddu cyfalaf Cymru gyfan y GIG gan gynnwys disodli'r hen fflyd ambiwlansys gyda modelau mwy modern â lefelau is o garbon. Bydd hyn hefyd yn arwain at arbedion refeniw o ganlyniad i gostau is mewn tanwydd a chynnal a chadw.

- £31.5m dros dair blynedd ar gyfer ail gam cenhedlaeth nesaf allwedd band eang, i gyflawni ein hymrwymiad yn *Symud Cymru Ymlaen* a *Ffyniant i Bawb* i ddarparu band eang cyflym a dibynadwy i'r rhannau o Gymru nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan y farchnad ar hyn o bryd. Mae mynediad at fand eang cyflym, dibynadwy yn galluogi mwy o bobl i weithio o'r cartref a mwy o fusnes i gael ei gynnal gan ddefnyddio technoleg, sy'n lleihau'r angen i deithio ac allyriadau carbon.
- £30m yn 2018-19 i gefnogi datblygiadau trafnidiaeth ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd, er mwyn cefnogi ein hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig a lleihau allyriadau carbon.
- £25m dros dair blynedd ar gyfer rhaglen Technoleg y Cymoedd yng Nghymoedd y De. Gan ganolbwyntio ar dechnolegau carbon isel newydd, bydd y rhaglen yn rhoi cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd, ac yn cefnogi ein hymrwymiadau yn *Symud Cymru Ymlaen*.
- £19m dros dair blynedd ar gyfer Banc Datblygu Cymru i gefnogi cronfa achub ac adfer a chynyddu buddsoddiad yn y gronfa benthyciadau i ficrofusnesau fel rhan o'n hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i wella'r ffordd y mae busnesau'n cael gafael ar gyllid. Mae'r cyllid hwn yn amodol ar ddatblygu a gwerthuso'r achosion busnes.
- £15m dros ddwy flynedd fel rhan o'n hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i sicrhau bod ysgolion yn dod yn ganolfannau cymunedol a darparu canolfannau dysgu cymunedol gyda gwasanaethau estynedig gan gynnwys cymorth i fagu plant a gofal plant. Bydd y buddsoddiad hwn yn ariannu cynllun peilot fel rhan o Dasglu'r Gweinidogion ar gyfer Cymoedd y De ac mae disgwyl iddo sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy helpu i gysylltu'r cymunedau a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl. Os bydd y cynllun yn llwyddo, mae'n bosibl y caiff ei gyflwyno ledled Cymru.
- £15m dros dair blynedd ar gyfer ailgylchu gwastraff a newid cydweithredol i gefnogi ein rhaglen datgarboneiddio a chefnogi ein hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i symud tuag at gael economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.
- £9.5m dros dair blynedd i wella profiad ymwelwyr mewn safleoedd CADW a fydd yn rhyddhau arbedion refeniw ac yn cefnogi ein diwylliant, treftadaeth ac amrywiaeth unigryw.
- £1m dros ddwy flynedd ar gyfer undebau credyd fel rhan o'n hymrwymiad yn *Symud Cymru Ymlaen* i ddatblygu ein gwaith ar gynhwysiant ariannol, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau cynghori ac undebau credyd.

Bydd rhagor yn cael ei ddyrannu yn ystod tymor yr hydref 2018 pan fydd cyllideb ddrafft 2019-20 amlinellol yn cael ei chyhoeddi.

## Cysoni ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn well â blaenoriaethau'r llywodraeth

Gan mai dim ond hyn a hyn o adnoddau sydd ar gael, mae'n rhaid i ni weithio'n wahanol os ydym am wneud yn siŵr bod ein buddsoddiad yn cael yr effaith orau bosibl. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio i sicrhau atebion integredig, a fydd yn garbon isel, yn hirdymor, ac yn canolbwyntio ar ryddhau refeniw neu atal.

Mae'r adran hon yn nodi rhai o'r camau gweithredu allweddol y byddwn yn eu cymryd.

### Ffyniannus a Diogel

**Ein nod yw cefnogi pobl a busnesau i hybu ffyniant, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg, ac ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.**

#### Datgarboneiddio

Ym mis Mawrth 2019, byddwn yn cyhoeddi ein *Cynllun Cyflawni Carbon Isel*, a fydd yn gosod ein polisïau a'n cynigion i helpu i sicrhau llai o allyriadau wrth i ni symud ymlaen at greu economi carbon

isel. Rydym eisoes yn ystyried effaith carbon wrth ddyrannu cyllid cyfalaf. Roedd hyn yn un o'r ffactorau allweddol wrth fuddsoddi £50m i ddatblygu gorsaf reilffordd newydd yn Llanwern, ynghyd â chyfleusterau parcio a theithio eang a gwelliannau i'r lein rheilffordd.

Rydym yn sicrhau bod pob adeilad iechyd ac addysg newydd sy'n cael ei ariannu â chyfalaf Llywodraeth Cymru yn cael eu dylunio a'u hadeiladu i ddefnyddio ynni'n effeithlon. Mae cyllid yn cael ei roi ar yr amod bod prosiectau sy'n cael eu dylunio yn cael tystysgrif Perfformiad Ynni Gradd A, yn ogystal ag achrediad rhagorol o dan y Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) i ddangos eu bod yn gynaliadwy. Ar ben hynny, rhaid i gontractau nodi bod yn rhaid defnyddio 15% o ddeunyddiau eildro wrth adeiladu.

I helpu i sicrhau bod ansawdd yr aer yn lleol yn gwella, rydym wedi rhoi £5.6m arall dros y ddwy flynedd nesaf i gefnogi awdurdodau lleol i wneud gwaith dichonoldeb a fydd yn sail i fuddsoddiadau mewn seilwaith yn y dyfodol. Bydd y cyllid hwn, ynghyd â £2m i ddarparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan, o ganlyniad i gytundeb y gyllideb gyda Phlaid Cymru yn 2017, yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n codi yng Nghymru ynghylch llygredd aer sy'n berthnasol i drafnidiaeth.

Rydym yn dod â'n gwasanaethau cynnal ynghyd i helpu'r sector cyhoeddus i ddatblygu'r broses o ddefnyddio ynni'n effeithlon a chynhyrchu ynni. Rydym wedi rhoi cefnogaeth ers tro i brosiectau ynni cymunedol a lleol, gan annog cydweithio yn seiliedig ar leoedd. Rydym yn disgwyl i bron i £70m gael ei fuddsoddi mewn prosiectau ynni sector cyhoeddus erbyn diwedd tymor y Cynulliad presennol.

### Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd

I helpu i ymateb ac i addasu i heriau newid yn yr hinsawdd a rheoli'r peryglon presennol a'r peryglon yn y dyfodol o ran llifogydd ac erydu arfordirol sydd wedi'u nodi yn y *Cynlluniau Rheoli Traethlin*, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cynllun cyllid arloesol i fuddsoddi hyd at £150m drwy'r rhaglen rheoli peryglon arfordirol. Bydd y gwaith o lunio cynlluniau'n cychwyn o fis Ebrill 2019 ymlaen am dair blynedd. Mae hyn yn ychwanegol at y cyfalaf sydd wedi'i ddyrannu i Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i gefnogi eu gwaith i reoli peryglon llifogydd ac erydu arfordirol.

Bydd Cymru'n parhau i weithio i sicrhau bod gennym seilwaith ynni a grid addas i'r pwrpas, ar y tir ac ar y môr. Mae cynlluniau peilot arloesol ar waith, fel prosiect ANGLE DC sy'n defnyddio cerrynt uniongyrchol yn lle cerrynt eiledol i gynyddu capasiti rhwydwaith lleol yng ngogledd Cymru. Mae prosiect FREEDOM wrthi'n treialu rhaglen nwy/trydan hybrid adnewyddadwy ar gyfer creu gwres ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ochr yn ochr â rhaglen arddangos gydag arian o Ewrop sy'n treialu datgarboneiddio gwres. Mae €100m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi cael ei ddyrannu ar gyfer prosiectau ffrwd lanw ac ynni tonnau'r môr yng Nghymru

### Seilwaith Ynni

Mae Deddf Cymru 2017 yn datganoli'r cymhwysedd ar gyfer rhoi caniatâd i greu gorsafoedd cynhyrchu trydan hyd at 350MW ar y tir ac ar y môr, yn ogystal â llinellau trydan uwchben cysylltiedig o hyd at 132KV ac yn cynnwys hynny, i Weinidogion Cymru o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Mae  Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno proses cydsynio seilwaith unedig yn ystod tymor y Cynulliad presennol er mwyn ymateb i anghenion busnesau a chymunedau a chefnogi twf economaidd cynaliadwy a datgarboneiddio'r cyflenwad ynni.

## Astudiaeth Achos



# Canolfan Gofal Integredig Aberteifi

Bydd Canolfan Gofal Integredig Aberteifi yn cymryd lle Ysbyty Goffa Aberteifi a Chanolfan Iechyd Aberteifi (un practis sydd â phedwar meddyg teulu).

Dechreuodd y gwaith ar y ganolfan sy'n werth £24m yn ystod y gwanwyn eleni. Bydd yn darparu meddygfa, fferyllfa gymunedol, ystafell ddeintydd gymunedol, adran cleifion allanol ac achosion dydd, diagnosteg, uned mân anafiadau, gwasanaethau adsefydlu a lleoliad swyddfa ar gyfer tîm adnoddau cymunedol.

Bydd y ganolfan newydd yn rhoi mynediad i bobl at amrywiaeth ehangach o wasanaethau yn lleol ac yn diogelu'r model gofalu at y dyfodol i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn y dyfodol.



Astudiaeth Achos

## Pencadlys Newydd Trafnidiaeth Cymru

Bydd pencadlys newydd Trafnidiaeth Cymru yn cael ei leoli yn ailddatblygiad arloesol Cwm Taf ym Mhontypridd, cynllun pwysig yn strategol gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Mae'r ailddatblygiad yn cael pecyn cyllid sy'n cynnwys £30m gan y Gyngor Rhondda Cynon Taf, £10m gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â £7m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Bydd cannoedd o staff yn cael eu lleoli ym mhencadlys newydd y cwmni dielw a sefydlwyd i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch o safon uchel. Gobeithio y bydd y chwistrelliad o swyddi yn hybu adfywio lleol yn gyffredinol.

Trafnidiaeth Cymru yw cwmni dielw Llywodraeth Cymru a'r cwmni hwn fydd wyneb y gwasanaeth Metro a'r gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau ehangach. Un o brif nodau Metro De Cymru, sy'n rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd, yw darparu system drafnidiaeth newydd a fydd yn trawsnewid Cledrau'r Cymoedd i fod yn wasanaeth cyflymach ac amlach.

Gyda chysylltiad gwell ym Mhontypridd, bydd modd i ddarpar weithwyr Trafnidiaeth Cymru, gweithredwr y Metro a phartneriaid cyflawni a sefydliadau partner o ddalgylch eang gyrraedd y dref, a bydd hyn yn cynnig cyfleoedd i greu gwaith yn yr ardal sy'n gofyn am sgiliau da ac yn cynnig cyflog da.

Hefyd mae Morlyn Llanw Bae Abertawe a Wylfa Newydd yn rhaglenni mawr ac os bydd Llywodraeth y DU yn eu cymeradwyo, byddant yn dod â chyfleoedd sylweddol i'r diwydiant yng Nghymru a'r tu allan iddi.

### Datblygu Economaidd ac Adfywio

Mae gan rannau gwahanol o Gymru gryfderau ac anghenion economaidd gwahanol. Felly, mae angen i ni fod yn ddeinamig wrth hyrwyddo twf a datblygiad sy'n adlewyrchu hyn. Yn dilyn llofnodi'r fargen Prifddinas-ranbarth Caerdydd a'r fargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â rhanbarth Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i edrych ar y ffordd orau y gall bargen twf gefnogi eu huchelgais i ddatblygu Gogledd Cymru sy'n fedrus, yn wydn, ac yn gydlynol. Mae hyn yn cynnwys ystyried y mathau o brosiectau buddsoddi, a fydd yn dwyn manteision cynaliadwy tymor hir ar draws y nodau llesiant.

Bydd y rhaglen tair blynedd newydd sy'n werth £100m ar gyfer buddsoddi mewn gwaith adfywio penodol yn hyrwyddo adfywio economaidd, a bydd gweithgareddau'n canolbwyntio ar yr unigolion a'r ardaloedd sydd fwyaf mewn angen yn ogystal â chyflawni nodau datblygu cynaliadwy ehangach ledled Cymru. Bydd hyn yn gyson hefyd â rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sy'n canolbwyntio ar safleoedd yng nghanol trefi sy'n wag neu ddim yn cael eu defnyddio digon ar gyfer eu hailddatblygu ac adnewyddu adeiladau at ddibenion gwaith.

Bydd ein Cynllun Safleoedd Cyflogaeth Strategol yn buddsoddi £21m, gan gynnwys cyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, i baratoi tir ar gyfer datblygiadau mewn lleoliadau strategol ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys seilwaith craidd, fel ffyrdd, draeniau a gwasanaethau cyfleustodau. Bydd hyn yn cefnogi'r sector ynni ar Ynys Môn; y sector modurol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r bargenion dinesig a thwf yng Nghaerdydd (Caerffili) a Bae Abertawe (Caerfyrddin).

### Trethi Datganoledig

Mae'r dreth trafodiadau tir yn weddol debyg i dreth dir y dreth stamp, ac mae bellach yn cael ei chodi ar drafodiadau tir yng Nghymru. Mae datganoli yn rhoi cyfle i Gymru ddarparu trefniadau treth a gosod bandiau a chyfraddau treth sy'n briodol i Gymru. Mae'r cyfraddau a'r bandiau treth yn golygu bod 90% o drafodiadau preswyl ac amhreswyl bellach yn talu'r un faint o dreth neu lai o dreth na'r hyn oedd yn digwydd gynt dan dreth dir y dreth stamp.

Mae Deddf Cymru 2014 yn galluogi Cymru i gynnig trethi newydd mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig. Yn ystod haf 2017, dechreuodd yr Ysgrifennydd Cyllid drafodaeth genedlaethol am drethi newydd. Yn sgil hyn, lluniwyd rhestr fer o bedwar syniad am dreth newydd – treth tir gwag; treth ar dwristiaeth; treth ar blastigion untro ac ardoll gofal cymdeithasol. Caiff y dreth tir gwag ei defnyddio i brofi mecanwaith Deddf Cymru am y tro cyntaf. Rhaid i ddatganoli pwerau ar gyfer trethi newydd gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU a dau Dŷ'r Senedd cyn cael ei chymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno treth tir gwag i helpu i gymell mwy o ddatblygu tir yn amserol, atal dirywiad llwyr a helpu i adfywio. Rydym yn awyddus i atal yr arfer o gadw tir nes y bydd yn cynyddu mewn gwerth a thir nad yw'n cael ei ddatblygu o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Gallai'r dreth fod yn ysgogiad i gefnogi ein blaenoriaeth o ran darparu tai, a datblygu economaidd.

## Iach ac Egnïol

**Ein nod yw darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol, hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb a chreu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell.**

Fel ein fframwaith ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith, mae gan y Cynllun Buddsoddi gyfraniad pwysig i'w wneud at wella iechyd a llesiant, a lleihau anghydraddoldebau.

Mae iechyd da yn dibynnu ar fwy na darparu gwasanaethau iechyd da. Mae'r ffordd y caiff cymdeithas ei threfnu; ei ffyniant economaidd; cyfleoedd bywyd cynnar unigolyn; ei gyfleoedd addysg a chyflogaeth; cefnogaeth a chydlyniad cymunedol; y cartrefi maent yn byw ynddynt, yn ffurfio penderfynyddion cymdeithasol ehangach sy'n effeithio ar iechyd unigolion a'r genedl.

Gall ein seilwaith helpu pobl i fyw bywydau iach, drwy ddarparu:

- Mannau o safon uchel
- Gwell mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau
- Cartrefi o safon uchel
- Seilwaith teithio llesol
- Mynediad i fannau agored a'r amgylchedd naturiol

### Tai

Un o bump maes blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn Ffyniant i Bawb yw darparu cartrefi fforddiadwy o safon dda. Y rhain yw sylfaen cymunedau, sy'n galluogi pobl i fyw bywyd cyflawn a chael cysylltiad cryf â'u cymuned leol. Byddwn yn buddsoddi £1.7bn yn ystod tymor y Cynulliad hwn i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy. Bydd y buddsoddiad hwn yn cyfrannu hefyd at economïau lleol a chenedlaethol ac yn cefnogi cyfleoedd hyfforddi a swyddi. Rydym hefyd wedi cyhoeddi adolygiad annibynnol i weld a oes modd gwneud mwy er mwyn helpu rhagor o bobl Cymru i gael mynediad at dai fforddiadwy.

### Teithio Llesol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi lefelau mwy o deithio llesol. Cafodd £5m arall ei ddyrannu yng nghyllideb 2018-19 ac mae £60m arall yn cael ei gyhoeddi wrth ochr cyhoeddi'r adolygiad canol cyfnod i gyflymu'r gwaith o wella rhwydwaith teithio llesol mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru. Bydd y cynlluniau'n amrywio o welliannau bach i gyffyrdd lleol i ateb y galw neu i wneud teithiau cerdded neu ar feic yn fwy diogel i brosiectau mwy, proffil uchel i logi beiciau ar draws dinas gyfan.

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cafodd yr *Adolygiad Seneddol o Ofal Cymdeithasol ac Iechyd yng Nghymru* ei gyhoeddi'n ddiweddar ac mae'n cynnig achos cryf iawn dros newid, gan argymell y "dylid trefnu gofal o amgylch yr unigolyn a theulu'r unigolyn, mor agos â phosibl at y cartref, ac y dylai fod yn ataliol, yn hygyrch ac o ansawdd uchel. Dylai gael ei alluogi'n rhannol gan dechnoleg ddigidol a dylai ddarparu'r hyn sy'n bwysig iawn i ddefnyddwyr a'r cyhoedd."

Rydym yn parhau i gymryd camau i symud gwasanaethau o ysbytai ac i gymunedau lleol i ddarparu gwasanaeth gofal iechyd modern sy'n nes at le mae pobl yn byw. Rydym yn cyfeirio ein buddsoddiadau yn benodol at wasanaethau sy'n hygyrch; yn cynnwys ailgynllunio gwasanaethau gan ganolbwyntio ar fodelau newydd o ofal; yn defnyddio technoleg newydd ac yn gwella'r capasiti diagnostig; yn ogystal â cheisio cael cydbwysedd rhwng y gofynion i ddatblygu a chynnal y sylfaen asedau a'r ystad bresennol drwy'r amser.

Yn ogystal a pharhau i fuddsoddi drwy ein rhaglen cyfalaf Cymru gyfan y GIG, gan gynnwys buddsoddi £70m arall dros ddwy flynedd ar gyfer offer meddygol, TGCh a cherbydau a £60m arall wrth gyhoeddi'r adolygiad canol cyfnod; cyhoeddwyd llif o brosiectau ym maes gofal sylfaenol ym mis Rhagfyr 2017. Clustnododd hyn £68m arall ar gyfer 19 o ganolfannau iechyd a gofal integredig newydd ledled Cymru i'w cyflawni erbyn 2021. Mae achosion

busnes wrthi'n cael eu datblygu ac mae'r rhain yn cynnwys cynllun gwerth £7.8m yn Ysbyty Bro Ddyfi ym Machynlleth, sy'n cynnwys canolfan integredig ar gyfer gwasanaethau cleifion allanol a gofal iechyd cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau'r trydydd sector.

Mae angen gwella llawer ar rannau helaeth o ystad gofal cymdeithasol Cymru. Gyda modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol, bydd angen ffurfweddu'r seilwaith yn wahanol, fel cyd-leoli'r gwasanaethau hyn, neu ddarparu gofod i offer a thechnolegau sydd mewn ysbytai ar hyn o bryd.

Yng nghyllideb 2018-19, cafodd £15m ei ddyrannu ar gyfer rhaglenni tai, iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi byw'n annibynnol wedi'i integreiddio â gofal. Mae'r cynlluniau a ariannwyd yn cynnwys tai newydd i bobl sydd ag anghenion cymhleth, llety cam-i-lawr ar gyfer pobl sy'n gadael yr ysbyty a gofal ychwanegol. Bydd hyn yn sicrhau arbedion refeniw drwy ddarparu gofal cymdeithasol yn fwy effeithlon a lleihau'r oedi wrth ryddhau pobl o ysbytai. Mae'n golygu hefyd y gall pobl agored i niwed fwynhau mwy o annibyniaeth.

## Uchelgais a Dysgu

**Ein nod yw helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial, datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw, a sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid.**

Mae angen pobl greadigol, hyblyg a medrus ar Gymru ffyniannus – ein system addysg fydd y sylfaen ar gyfer oes o ddysgu a chyflawni. .

### Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif

Mae ein rhaglen arloesol Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ganolog i'n huchelgais ar gyfer addysg yng Nghymru fel sydd wedi'i nodi yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*. Rydym yn gwneud buddsoddiadau strategol tymor hir yn ein hystad addysg ledled Cymru gydag awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Rydym yn buddsoddi £3.7bn yn y rhaglen.

Rydym wedi sicrhau bod £10m o gyllid cyfalaf ychwanegol ar gael ar gyfer sefydliadau addysg bellach i fuddsoddi mewn offer hyfforddi sy'n cyrraedd safonau diwydiant i sicrhau bod myfyrwyr yn cael hyfforddi gyda'r dechnoleg ddiweddaraf a bod yr hyfforddiant yn bodloni anghenion cyflogwyr lleol. Rydym hefyd yn dyrannu £10m o gyllid cyfalaf yn 2018-19 ac yn 2019-20 i sefydliadau addysg bellach ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu diogel i fyfyrwyr. Bydd hyn yn rhyddhau refeniw a fydd yn gallu cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau.

### Sicrhau dyfodol y Gymraeg

Mae gan ein buddsoddiadau cyfalaf rôl i'w chwarae i ddiogelu dyfodol yr iaith Gymraeg ac maent yn bwysig i wireddu ein huchelgais i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym wedi dyrannu £30m arall ar ben yr hyn sydd eisoes wedi'i glustnodi o dan fand B y rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i roi cyllid ychwanegol ar gyfer cynlluniau cyfalaf y gellir dangos eu bod yn cefnogi'r iaith Gymraeg mewn addysg ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyrraedd nod 2050.

Mae datblygu economaidd yn hollbwysig, oherwydd mae swyddi'n gwbl angenrheidiol i gynnal a chynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg mewn unrhyw ran o Gymru. Gall buddsoddi mewn seilwaith lywio'r gwaith o ddatblygu tai newydd a chyfleusterau cymunedol i greu amodau ffafriol er mwyn i'r Gymraeg ffynnu.

Mae'r cynlluniau rydym yn buddsoddi ynddynt i ddatblygu Cymru uchelgeisiol sy'n dysgu yn cynnig cyfle sylweddol i gefnogi ein huchelgais i sicrhau Cymru ffyniannus a diogel a'n prif faes blaenoriaeth sef sgiliau a chyflogadwyedd. Gallwn sicrhau'r effaith orau bosibl wrth i ni weithio gyda phartneriaid a chydlynu penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau cyfalaf.

## Unedig a Chysylltiedig

**Ein nod yw datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth, darparu seilwaith modern a chysylltiedig, a hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.**

Rydym am weld Cymru o gymunedau sydd wedi'u clymu, ac rydym yn gosod y sylfeini ar gyfer hyn drwy ein buddsoddiadau addysg ac iechyd i gyd-leoli gwasanaethau fel sydd wedi'i ddisgrifio'n flaenorol yn y bennod hon.

### Rhwydwaith trafnidiaeth integredig

Rydym yn gwneud yn siŵr fod y cysylltiadau yn eu lle i ddod â chymunedau at ei gilydd gan ddefnyddio dull integredig i gynllunio trafnidiaeth. Mae trafnidiaeth yn chwarae rhan allweddol yn ein bywydau bob dydd. Mae gan hyn rôl hollbwysig o ran ein gwneud yn fwy cystadleuol yn economaidd a gwireddu ein huchelgais gymdeithasol. Mae'n hanfodol hefyd ar gyfer annog cwmnïau i ymsefydlu yng Nghymru ac i'n busnesau bach dyfu.

Mae ein *Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol* yn gosod ein rhaglen dreigl uchelgeisiol dros bum mlynedd, a bydd hon yn cael ei diweddaru bob blwyddyn i adlewyrchu datblygiadau a phroffil anghenion sy'n newid ar draws Cymru. Rydym wrthi'n adolygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ac rydym yn rhagweld y caiff hon ei chyhoeddi yn 2019. Bydd pwerau newydd dros y fasnachfraint rheilffyrdd a bysiau yn golygu y gallwn ni edrych ar bob math o drafnidiaeth mewn ffordd fwy cydlynol, a bydd hyn yn rhoi cyfle i ni leihau allyriadau carbon, hyrwyddo teithio llesol a chael y mwyaf o'n buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus.

Rydym wedi sefydlu Trafnidiaeth Cymru fel is-gwmni dielw ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru i hybu'r weledigaeth hon. Un o'n camau cyntaf wrth i ni ddechrau gweithredu fel hyn fydd cyflawni rhaglen Metro De Cymru ar yr un pryd â datblygu contract newydd gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

Mae'r dull caffael ar gyfer Metro De Cymru wedi cynnwys egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r risgiau ehangach sy'n berthnasol i broses gaffael y Metro, gan gynnwys gofynion sgiliau a'r gadwyn gyflenwi, ac ystyriaethau amgylcheddol a diwylliannol.

Mae swyddogion trafnidiaeth ac iechyd wedi cydweithio i nodi'r cyfleoedd i gysoni'r gwaith o ddatblygu a darparu Metro De Cymru gyda datblygiad Canolfan Ganser newydd Felindre. Mae hyn yn cynnwys cyfle i ehangu cysylltiadau'r Metro a chynnwys gorsaf i gael mynediad i'r ganolfan ganser newydd. Mae adrannau tai a thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda'i gilydd gyda landlord cymdeithasol cofrestredig i ddatblygu cynllun tai fforddiadwy mewn safle parcio a theithio metro yng Nghogan, ym Mro Morgannwg.

Rydym yn gwella'r cysylltiadau ffordd rhwng y gogledd a'r de ac fel rhan o gytundeb y gyllideb gyda Phlaid Cymru yn 2017 wedi dyrannu £15m ar gyfer gwella'r A487 a'r A470 yn 2019-20. Bydd hyn yn sicrhau bod yr amser teithio yn fwy dibynadwy ac yn gwneud y coridor rhwng y gogledd a'r de yn fwy diogel. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y buddsoddiad mwyaf mewn ffyrdd yng Ngogledd Cymru mewn degawdau gydag amrywiol welliannau i'r A55 a'r A548.

Bydd y gwelliannau hyn yn hybu rhagolygon cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth ymhellach. Fel rhan o'n blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yn y rhanbarth, rydym wedi ymroi hefyd i ddatblygu cynnig ar gyfer Metro Gogledd-ddwyrain Cymru. Canolbwyntir ar greu canolfannau trafnidiaeth Integredig mewn safleoedd cyflogaeth allweddol ar draws gogledd Cymru ac ardal ehangach Dyfrdwy a'r Mersi. Rydym yn cydweithio gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Transport for the North, Partneriaeth Menter Leol Swydd Gaer a Warrington, Growth Track 360 ac eraill.

**Astudiaeth Achos**

## Canolfan Peirianneg, Campws Llangefni, Grŵp Llandrillo Menai

Gan weithio gyda Grŵp Llandrillo Menai, mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru o £6.8m yn helpu i ddarparu Canolfan Ragoriaeth ym maes Peirianneg yn Llangefni, canolfan o'r radd flaenaf sy'n werth £13.5m. Mae'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, Magnox a Horizon Nuclear Power yn ariannu'r ganolfan hefyd.

Ynghyd â'r Ganolfan Ynni bresennol, bydd y ganolfan newydd yn creu Canolfan Ragoriaeth ym maes Technoleg ac yn diwallu anghenion y Rhaglen Ynys Ynni o ran sgiliau galwedigaethol a thechnegol, yn enwedig ar gyfer Gorsaf Pŵer Niwclear Wylfa Newydd.

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd y ganolfan yn datblygu i arwain ar lefel y DU ac yn fyd-eang ar ddarparu hyfforddiant ym maes peirianneg a chynhyrchu ynni. Bydd yn ganolbwynt ar gyfer hyfforddi'r genhedlaeth newydd o weithwyr sydd eu hangen ar gyfer Wylfa Newydd. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau yn 2019, a bydd hyn yn rhoi cyfle i'r coleg gynnig nifer o lefydd ychwanegol ar gyfer myfyrwyr peirianneg sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a thechnegol.

Bydd myfyrwyr yn elwa o gael cyfleusterau o safon uchel, gan gynnwys gweithdai o'r radd flaenaf sydd ag offer peirianneg modern, ystafelloedd dosbarth newydd a ffreutur. Bydd cyfleusterau yno hefyd i ddarparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer y diwydiant.

Bydd y ganolfan wedi'i lleoli ar yr un campws â Chanolfan Ragoriaeth Ewropeaidd ym maes Sgiliau Niwclear sy'n werth £50m ac wedi'i sefydlu gan Horizon Nuclear Power a Lockheed-Martin. Bydd hyn yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau ym maes peirianneg i gefnogi prosiect Wylfa Newydd. Bydd y ganolfan yn elwa hefyd yn sgil ffordd gyswllt newydd Llangefni sy'n werth £11.4m ac wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y ffordd hon ei hadeiladu i gefnogi'r gwaith o ehangu'r campws.

**Astudiaeth Achos**

## Metro De Cymru

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi arwain ar ddull caffael newydd i benodi Gweithredwr a Phartner Datblygu i weithredu contract nesaf gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a'n helpu ni i ddatblygu a darparu Metro De Cymru sy'n werth £738m. I gyflawni hyn, rydym wedi defnyddio ffyrdd arloesol o weithio wrth ddatblygu Metro De Cymru, fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd.

Bydd trawsnewid Metro De Cymru yn darparu gwasanaeth cyrraedd a mynd a fydd yn integreiddio'n well â dulliau trafnidiaeth eraill, gan gynnwys bysiau, a chynnig opsiynau tocynnau hyblyg. Bydd teithwyr yn gallu teithio'n rhwydd ar draws de Cymru gyda gwell capasiti, gwell ansawdd, llai o allyriadau, a gwell gwybodaeth i deithwyr. Bydd y cysylltiadau gwell yn helpu i gefnogi pobl a busnesau i hybu ffyniant.

Bydd prosiect Metro De Cymru yn cynnig sail i'n dulliau gweithredu wrth gyflwyno Metro Gogledd-ddwyrain Cymru, yn ogystal â systemau metro eraill posibl mewn rhannau eraill o Gymru a fydd yn addas i anghenion lleol ac yn dwyn budd i ragor o gymunedau ledled Cymru.

Rydym wedi dyrannu £4m i gefnogi'r gwaith o ddylunio a datblygu trydedd bont dros afon Menai, fel rhan o gytundeb y gyllideb gyda Phlaid Cymru yn 2017, ac rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol, busnesau a'r Grid Cenedlaethol.

Mae porthladdoedd morol yn cyfrannu'n sylweddol at fewnforio cyfoeth economaidd, gan gefnogi swyddi a sicrhau bod Cymru yn gysylltiedig drwy, er enghraifft, symud nwyddau yn ogystal â dod â gwerth ychwanegol i gymunedau lleol. Pan gafodd swyddogaethau sy'n ymwneud â phorthladdoedd eu datganoli yn 2018 o dan Ddeddf Cymru 2017, cafwyd cyfle gwerthfawr i ni gefnogi porthladdoedd i wireddu eu potensial. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cronfa datblygu porthladdoedd fel rhan o gytundeb y gyllideb 2016-17 gyda Phlaid Cymru, i helpu i gynyddu'r cyfraniad y mae porthladdoedd yn ei wneud i economi Cymru.

Mae'r diwydiant awyrennau yn datblygu hefyd ac mae Cymru, y DU ac Ewrop yn ei weld fel rhan hanfodol o'r rhwydwaith trafnidiaeth sydd ei angen ar gyfer llesiant economaidd-gymdeithasol. Byddwn yn buddsoddi rhagor ym Maes Awyr Caerdydd er mwyn sicrhau ei fod yn barod at y dyfodol ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

**Cyflawni Cymru ddigidol**

Mae cysylltu cymunedau ar draws Cymru a gyda gweddill y byd yn golygu mwy na'n rhwydwaith trafnidiaeth. Mae cysylltedd digidol yn un o'r ffactorau sy'n ysgogi twf economaidd, ac mae'n hollbwysig ar gyfer cynhyrchiant a bod yn gystadleuol. Mae'n hanfodol hefyd ar gyfer gweithredu a darparu gwasanaethau cyhoeddus, ac ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol unigolion a llesiant cymdeithas.

Mae Cyflawni Cymru Ddigidol yn parhau'n gynllun cyffredinol ar gyfer datblygu cysylltedd digidol yng Nghymru. Rydym wedi cyhoeddi ein cynlluniau'n ddiweddar i gyrraedd gweddill yr adeiladau gan gynnwys y rheini nad ydynt yn rhan o raglen gyflwyno Cyflymu Cymru. Mae hyn yn golygu cyfres o ymyriadau sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd gyda'r nod o wella'r cysylltiad. Rydym wedi gofyn i gyflenwyr gyflwyno tendr ar gyfer y cynllun a fydd yn olynu Cyflymu Cymru gyda phwyslais ar ddarparu mewn ardaloedd gwledig, blaenoriaethu busnesau a gwasanaethau gwibgyswllt 100Mbps. Hefyd, rydym yn cyflwyno cynllun cymunedol i weithio gyda chlystyrau o gartrefi neu fusnesau i ddiffinio prosiect lleol a chael ateb sy'n cefnogi ein dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar bobl a lleoedd.

# Pennod pedwar – Parhau i wella'r ffordd rydym yn cynllunio, yn cyllido ac yn darparu seilwaith

**Mae'r bennod hon yn nodi ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan adeiladu ar y gwaith llwyddiannus o gyflawni blaenoriaethau a nodau'r Cynllun Buddsoddi hyd yma – a'r camau a gymerwn i'n helpu i fuddsoddi mewn seilwaith i greu'r Gymru a garem.**

## Yr heriau o hyd

Mae buddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus yn helpu i ysgogi twf economaidd ehangach; yn diogelu'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac yn helpu i gefnogi llesiant pobl a llesiant y wlad.

Am bob blwyddyn y bydd polisi cyni Llywodraeth y DU yn parhau ac y bydd ein cyllideb cyfalaf yn parhau i gael ei chyfyngu, bydd mwy a mwy o bwysau ar ein gallu i fuddsoddi mewn seilwaith. Mae'n bwysicach nag erioed felly ein bod yn parhau i adolygu sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau prin yn effeithiol ac yn blaenoriaethu rhwng y gofynion cystadleuol i sicrhau ein bod yn rhoi gwerth am arian ac yn cael yr effaith orau bosibl am bob buddsoddiad.

Rhaid i ni edrych y tu hwnt i bortffolio Gweinidogion unigol a chydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r dull hwn yn ganolog i gyflawni ein rhaglen lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* a'n strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*.

Rydym eisoes wedi dangos sut rydym yn gweithio'n wahanol ar draws portffolios Gweinidogion a thu hwnt i'r ffiniau Gweinidogol traddodiadol fel rhan o Dasglu'r Gweinidog ar gyfer Cymoedd De Cymru.

## Rhagolygon gwariant cyfalaf

Ni wyddom beth fydd ein cyllideb cyfalaf ar gyfer 2021-22 a thu hwnt. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd Adolygiad o Wariant yn 2019 ac mae posibilrwydd na fyddwn yn gwybod yn sicr beth fydd ein cyllideb cyfalaf ar gyfer tymor y Cynulliad nesaf nes ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU yn 2022.

Mae'n annhebygol y bydd yr hinsawdd economaidd heriol bresennol yn gwella'n sylweddol cyn cyfnod yr Adolygiad o Wariant neu wrth i ni symud i'r cyfnod hwnnw, yn enwedig gan fod y rhagolygon economaidd a chyllidol ar gyfer Cymru a'r DU yn dibynnu'n fawr iawn ar y trafodaethau Brexit sy'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd (UE). Ni fyddwn yn gwybod beth fydd effaith tymor byr-canolig y fargen wrth ymadael â'r UE ar wariant cyhoeddus nes i Lywodraeth y DU gynnal yr Adolygiad o Wariant yn 2019 fan gynharaf.

Yn Natganiad Gwanwyn cyntaf Canghellor y Trysorlys yn 2018, roedd y rhagolygon tymor canolig ar gyfer economi'r DU yn parhau i fod yn siomedig. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi codi ei rhagolygon economaidd ychydig ar gyfer y tymor byr, ond mae'r DU ar ei hôl hi y tu ôl i'r rhan fwyaf o economïau mwyaf y byd. Ar adeg pan fo twf economaidd ar draws ardal yr Ewro yn tyfu ar ei gyfradd gyflymaf ers degawd, mae twf ar draws y DU wedi arafu ac mae'r data diweddaraf (ar gyfer chwarter cyntaf 2018) yn dangos bod twf yn y DU ar ei wannaf ers 2012. Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau'n gyson bod angen buddsoddiadau mawr newydd ar yr economi neu bydd y DU yn parhau i fod ar ei hôl hi.

Wrth i'r ansicrwydd ynghylch Brexit barhau, mae busnesau angen llywodraeth sy'n barod i fuddsoddi i gefnogi twf a swyddi. Ers i bolisi cyni Llywodraeth y DU gychwyn, rydym wedi galw ar Lywodraeth y DU i weithredu i gynyddu gwariant cyfalaf a rhoi'r ysgogiad economaidd sydd mawr ei angen ar y Deyrnas Unedig gyfan. Rydym wedi gweld cynnydd cymharol fach i'n cyllideb cyfalaf yn y blynyddoedd diweddar ond nid yw hyn yn mynd yn ddigon pell i wneud yn



Astudiaeth Achos

## Tasglu'r Gweinidog ar gyfer Cymoedd De Cymru

Cymoedd De Cymru yw un o ardaloedd mwyaf nodedig Cymru. Mae'r Cymoedd yn enwog am eu hanes, eu daearyddiaeth a'u tirweddau trawiadol, ac am eu diwylliant. Pan fyddwn yn siarad am y Cymoedd, byddwn yn sôn am gymunedau clos, cyfeillgar, a chroesawgar. Ond mae'r Cymoedd yn wynebu heriau unigryw hefyd sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn, ac wedi'u hachosi'n bennaf yn sgil dirywiad y diwydiannau trwm a diwedd y pyllau glo. Mae'r ardal ar ei hôl hi tu ôl i weddill Cymru yn nhermau economaidd; yn nhermau safon a hyd bywyd ac o ran sgiliau a chyrhaeddiad addysgol.

Cafodd Tasglu'r Gweinidog ar gyfer Cymoedd De Cymru ei sefydlu yn 2016 i hybu newid go iawn a pharhaus ar draws y rhanbarth. Mae wedi gweithio gyda chymunedau lleol yn y Cymoedd i ddatblygu cynllun gweithredu a chyflawni yn ystod oes tymor y Cynulliad hwn gan osod cyfres o flaenoriaethau uchelgeisiol.

Cafodd Ein Cymoedd, Ein Dyfodol ei gyhoeddi yn 2017 ac mae wedi'i seilio ar dri maes blaenoriaeth: swyddi o ansawdd da a sgiliau i'w cyflawni; gwell gwasanaethau cyhoeddus a fy nghymuned leol.

Bydd y tasglu yn gweithio gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gyflawni dros 60 o gamau gweithredu blaenoriaeth yn y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys cau'r bwlch swyddi rhwng Cymoedd De Cymru a gweddill Cymru; creu swyddi newydd, cynaliadwy a sicr, gyda'r sgiliau priodol i'w cyflawni; creu canolfannau strategol; cefnogi'r economi sylfaenol a digidol, a busnesau newydd, a manteisio ar gyfleoedd creu swyddi o'r buddsoddiad mewn seilwaith ym Metro De Cymru, ffordd liniaru'r M4 a gwaith deuoli'r A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd.

Ardaloedd o fuddsoddiad penodol yn y sector cyhoeddus yw'r canolfannau strategol, a'u nod yw denu buddsoddiad gan y sector preifat, creu swyddi a chyfleoedd ar gyfer yr ardal leol. Mae saith ardal ar draws Cymoedd De Cymru wedi'u nodi fel canolfannau strategol. Ardaloedd yw'r rhain lle mae modd i bobl sy'n byw yng nghymunedau'r Cymoedd eu cyrraedd o fewn 45 munud gyda thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae awdurdodau lleol wedi arwain gwaith i nodi'r blaenoriaethau ar gyfer pob canolfan strategol ac i sicrhau bod pob un yn cael cymaint o effaith ag y bo modd. Dyma leoliadau'r canolfannau: Pontypridd/Trefforest, Caerffili/Ystrad Mynach, Castell-nedd, Glynebwy, gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chwmbrân.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'r trydydd sector a chymunedau lleol i ymateb i anghenion pobl. Bydd ffyrdd iachach o fyw, llesiant corfforol a meddyliol gwell, a lleihau anghydraddoldebau iechyd yn cael eu cefnogi. Bydd cludiant cyhoeddus fforddiadwy ac integredig yn gymorth i fynd â phobl i le mae angen iddynt ei gyrraedd. Bydd canlyniadau addysg pob plentyn yn gwella a'r bwlch o ran cyrhaeddiad yn cau.

Mae'r tasglu'n edrych hefyd ar y cysyniad o greu Parc Tirwedd y Cymoedd fel rhan o'r nod ehangach i wneud y Cymoedd yn ardal lle mae pobl yn falch o'i galw'n gartref a busnesau'n dewis gweithredu yno. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn 2018 i ymchwilio i'r parc tirwedd gyda chymunedau cymoedd lleol.

iawn am yr 20% o doriad mewn termau real (heb gynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol) y byddwn yn ei weld erbyn diwedd y ddegawd o gymharu â phan oedd y cyllidebau cyfalaf ar eu huchaf yn 2009-10.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysicach nag erioed i ni fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau i gyflawni ein blaenoriaethau o ran seilwaith.

## Ffyniant i Bawb

Mae ein strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb* yn gwneud cyfres o ymrwymiadau ynghylch sut byddwn yn defnyddio ein hadnoddau fel llywodraeth, gan gynnwys ein buddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith, i'n galluogi i gael mwy o effaith – sy'n fwy penodol – ar y rheini sydd fwyaf angen ein help ac i gyflawni ein blaenoriaethau.

Mae *Ffyniant i Bawb* yn glir bod buddsoddi mewn seilwaith a'r ffordd rydym yn llunio ein penderfyniadau ynghylch buddsoddiad cyfalaf yn gallu cael effaith fawr ar dwf economaidd, gwasanaethau cyhoeddus a llesiant. Mae seilwaith modern o safon uchel yn allweddol i alluogi llesiant – gall ysgogi cystadleurwydd a chynhyrchiant a bod yn gatalydd i ragor o adfywio a chefnogi cymunedau bywiog.

Byddwn yn gweithio mewn ffordd strategol ar draws y llywodraeth gyfan wrth wneud penderfyniadau am y seilwaith. Bydd angen cynllunio buddsoddiadau yn ddoeth a'u rhoi ar waith yn dda os ydym am lwyddo i ddatblygu'r cyfleoedd sydd yn Ffyniant i Bawb ac ymateb yn effeithiol i'r heriau o'n blaenau i sicrhau bod gan Gymru y seilwaith priodol i fodloni ei hanghenion yn y dyfodol.

Mae *Ffyniant i Bawb* yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gyd-leoli gwasanaethau lle bo hynny'n bosibl, gan leihau'r angen i bobl deithio; ni fydd hyn yn bosibl oni bai ein bod yn cysoni ein penderfyniadau ar fuddsoddi er mwyn sicrhau'r effaith orau bosibl a gwneud yn siŵr bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn penderfyniadau lleol ynghylch lle i leoli datblygiadau newydd. Rydym yn gosod y sylfeini ar gyfer dull newydd o gynllunio buddsoddiadau cyfalaf yn y tymor canolig i'r tymor hwy, fel sydd wedi'i ddisgrifio yn y bennod flaenorol.

## Y cyd-destun ehangach

Mae'r *Cynllun Gweithredu Economaidd* a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi ein huchelgais o ran datblygu'r economi ac arfogi pobl, lleoedd a busnesau i wynebu'r dyfodol yn hyderus. Yr hyn sy'n greiddiol i'r cynllun yw darparu seilwaith modern a chysylltiedig, a fydd yn cefnogi twf a buddsoddiad. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos iawn â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Dyma'r adnodd y byddwn yn ei ddefnyddio i gynllunio, cydgysylltu a sicrhau bod ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn cydweithio'n effeithiol ac yn cefnogi ein huchelgais hirdymor o ran lle bydd pobl yn byw, yn gweithio, a sut byddant yn teithio.

Byddwn yn cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cyntaf yn 2020 a chaiff ei adolygu bob pum mlynedd. Bydd hyn yn nodi ymhle y mae angen twf a seilwaith sy'n bwysig ar lefel genedlaethol gan edrych ar gyfnod o 20 mlynedd, a sut y gall y drefn gynllunio helpu i gyflawni hyn. Bydd yn cynnig cyfeiriad ar gyfer y tymor hir, ac yn helpu i siapio datblygiad y Cynllun Buddsoddi nesaf, gan sicrhau bod blaenoriaethau buddsoddi tymor byr y llywodraeth nesaf yn cael eu llywio gan fframwaith tymor hwy.

Drwy gyfrwng Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, byddwn yn gosod llwybr datgarboneiddio tymor hir ar gyfer Cymru gan nodi targedau interim (ar gyfer 2020, 2030 a 2040) a chyllidebau carbon dros bum mlynedd a fydd yn gosod y llwybr i leihau allyriadau carbon gan roi sicrwydd ac eglurder ar gyfer buddsoddi. Bob pum mlynedd ym mhob gweinyddiaeth newydd, byddwn yn gosod cyllidebau carbon ar gyfer y dyfodol ac yn cyhoeddi cynllun


cyflawni a fydd yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn y tymor byr ac yn y tymor hir ar draws sectorau allweddol i'n harwain yn y broses o newid i fod yn gymdeithas garbon isel.

Mae'r camau gweithredu hyn wrthi'n cael eu datblygu ar draws y llywodraeth a chaiff ymgynghoriad cyhoeddus ei lansio yn ystod yr haf eleni. Bydd y *Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu Economaidd* yn ceisio gwreiddio'r dasg o gyflawni amcanion datgarboneiddio, a bydd gwaith yn mynd rhagddo i gysoni prosesau cyllidebu ariannol a chyllidebu carbon  fel bod datgarboneiddio yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau strategol.

Mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru wrthi'n cael ei sefydlu i roi cyngor arbenigol a diduedd i Lywodraeth Cymru am anghenion tymor hwy Cymru o ran y seilwaith amgylcheddol, strategol ac economaidd mewn cyfnod rhwng pum mlynedd a deg mlynedd ar hugain. Bydd y comisiwn yn ystyried sut bydd yr anghenion hyn yn rhyngweithio â'r seilwaith cymdeithasol, gan gynnwys ysgolion, ysbytai a thai. Rhagwelir y bydd adroddiadau'r Comisiwn yn helpu i lywio blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer gweinyddiaethau'r dyfodol.

Mae ffigur dau yn dangos sut bydd ein polisïau strategol yn berthnasol ar draws Cymru a phortffolios Gweinidogion, ac yn cydweithio fel cyfres o hidlyddion i siapio prosiectau a rhaglenni gwariant Llywodraeth Cymru.

## Ffigur dau – Y berthynas rhwng polisi, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau




### Pam bod angen i ni gael Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru?

Mae'r Cynllun Buddsoddi yn darparu'r fframwaith buddsoddi a'r dulliau strategol ar gyfer ein seilwaith diwylliannol, amgylcheddol a chymdeithasol yn y tymor byr i'r tymor canolig. Wrth i ni barhau i ddefnyddio'r holl ffactorau ysgogi sydd ar gael er mwyn sicrhau bod cymaint o adnoddau ag y bo modd ar gael i ni, mae'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn ei defnyddio o hyd i ymdrin â chyni a phwysau hynny ar ein cyllideb a chyllid cyhoeddus yn gyffredinol yn golygu na fydd gennym ddigon o gyfalaf i ariannu'r holl fuddsoddiadau yr hoffem ei wneud. Bydd y Cynllun Buddsoddi yn ein helpu i wneud penderfyniadau rhwng blaenoriaethau cystadleuol yn wyneb y cyni parhaus.

Er bod cryn dipyn o ansicrwydd o hyd ynghylch y rhagolygon economaidd yn y dyfodol a'r effaith ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, mae angen i ni ystyried lle rydym am fod yn y 10 mlynedd nesaf, a'r camau gweithredu a'r gwaith cynllunio sydd ei angen i lywio ein cynlluniau ar fuddsoddi cyfalaf. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried y dirwedd sy'n newid er mwyn gwneud yn siŵr bod ein buddsoddiad mewn seilwaith yn creu'r Gymru a garem. Mae gennym gyfle i ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n cynnig yr effaith fwyaf, a chyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth i sicrhau y bydd yr hyn rydym yn ei wneud yn y tymor byr i ganolig yn cyflawni yn y tymor hwy.

Mae ffigur tri yn gosod y prif gerrig milltir rhwng nawr a chyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi nesaf ar ddechrau tymor y Cynulliad nesaf. Bydd yn rhaid i ni fod yn drefnus dros ben ac yn hyblyg i ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau o'n blaenau.

## Ffigur tri – Prif gerrig milltir yn ystod y cyfnod cynllunio




**Nodyn**: Amcan ddyddiadau yw'r rhain o 2019 ymlaen a gallan nhw newid

## Y camau a'r camau gweithredu nesaf

Bydd angen i ni weithio'n wahanol – gweithio'n fwy cydweithredol ac mewn ffordd fwy integredig ar draws Llywodraeth Cymru a chyda'n partneriaid cyflawni, gan edrych dros y tymor hir i atal problemau rhag codi. Bydd angen i ni ystyried newid systemau, prosesau a ffyrdd o weithio sydd wedi ennill eu plwyf a phrofi penderfyniadau polisi yn erbyn amcanion llesiant a'r nod cyffredinol o sicrhau ffyniant i bawb.

Bydd angen i ni nodi cyfleoedd i gryfhau trefn llywodraethu a chynllunio strategol ein buddsoddiadau mewn seilwaith, gan gynnwys cymryd camau i gynnal capasiti a medrusrwydd y llywodraeth a'r diwydiant i gyflawni.

Mae'r adran hon yn nodi'r camau a'r camau gweithredu nesaf y byddwn yn eu cymryd ac yn eu gweithredu o dan bob un o'r pedwar nod yn ystod gweddill tymor y Cynulliad hwn i sicrhau bod ein fframwaith buddsoddi yn parhau i fod yn effeithiol, yn integredig ac yn gyson ag ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi sut rydym yn gweithio'n wahanol i greu'r Gymru a garem.

Byddwn yn rhoi systemau a threfniadau llywodraethu cadarn ar waith i oruchwylio'r gwaith hwn. Ar lefel uwch yn Llywodraeth Cymru, canolbwyntir yn gyson ar weithredu'r camau hyn a'r gwaith cynllunio. Bydd grŵp o uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru yn cynghori Ysgrifenyddion y Cabinet ynghylch cyfleoedd i gryfhau dull strategol y llywodraeth gyfan i fuddsoddi mewn seilwaith.

Bydd systemau ar gael hefyd i hwyluso rhannu gwybodaeth ac arferion gorau ar draws adrannau a bydd cydweithwyr yn adolygu cynigion newydd ar gyfer cynlluniau seilwaith er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried yr hirdymor ac yn helpu i osgoi problemau yn y dyfodol, yn annog cydweithio ac yn cynnwys cymunedau i ddarparu atebion integredig.

## Fframwaith buddsoddi

### 1. Creu system sy'n nodi ac yn blaenoriaethu cynlluniau seilwaith o bwys cenedlaethol ar draws cyfrifoldebau adrannol, gan gyfeirio adnoddau yn benodol ar fuddsoddiadau sydd â'r flaenoriaeth uchaf sy'n cynnig y budd mwyaf yn unol â datblygu cynaliadwy

Dros weddill tymor y Cynulliad hwn, byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu dull strategol cenedlaethol ar draws y llywodraeth gyfan i ymdrin â chynllunio a dyrannu adnoddau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith

Ni allwn gyfeirio ein cyllid cyfalaf yn effeithiol – a sicrhau'r effaith fwyaf – oni bai fod gennym gynigion buddsoddiad da, sy'n gyson â blaenoriaethau'r llywodraeth, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar gael canlyniadau.

Byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddwyn cynlluniau buddsoddi da ymlaen, a fydd yn nodi'r rhaglenni a'r prosiectau sydd fwyaf pwysig o ran yr effaith y byddant yn ei chael yn ystod y 20 mlynedd nesaf i ddarparu'r twf economaidd, gwasanaethau cyhoeddus a'n hamcanion llesiant.

Bydd y camau gweithredu canlynol yn helpu i gyflawni'r uchelgais hon:

**a. Byddwn yn gosod cyfres o egwyddorion buddsoddi i arwain ein gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau fel ein bod yn sicrhau'r effaith orau bosibl ac yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i gyflawni yn y tymor hwy.**

Bydd yr egwyddorion yn ffurfio sail i benderfyniadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ynghylch dyrannu cyllid a chynllunio buddsoddiadau i'n cefnogi i ddefnyddio ein hadnoddau yn fwy effeithiol ar draws y llywodraeth. Fel rhan o gyfres o flaenoriaethau buddsoddi, byddwn yn edrych ar gydbwysedd cyllid i gynnal ein seilwaith presennol gan barhau i fuddsoddi mewn seilwaith newydd i gyflawni ein

blaenoriaethau, yn ogystal â chryfhau ein gwaith monitro a gwerthuso cynlluniau seilwaith.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r gwaith hwn i ddeall y cysylltiad rhwng meysydd buddsoddi ac esbonio'r rhyngweithio rhwng gwahanol strategaethau, rhanddeiliaid a phrosesau, ac yn cefnogi sut gallwn gydweithio i sicrhau'r effaith orau bosibl. Drwy gysoni ein buddsoddiadau yn y seilwaith i adlewyrchu ein blaenoriaethau a'n ffordd newydd o weithio, byddwn yn gallu sicrhau'r buddiannau cymdeithasol ac economaidd mwyaf i Gymru.

### b. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartïon eraill sydd â diddordeb i ddatblygu'r egwyddorion buddsoddi a chreu consensws ynghylch anghenion seilwaith Cymru dros y tymor byr i ganolig.

Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, busnesau a phartneriaid cyflawni, gan gynnwys awdurdodau lleol, ynghylch yr heriau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau seilwaith ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Yn benodol, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddeall yn well pa wasanaethau y bydd eu hangen yn y dyfodol, ac i ddatblygu amcanion cyffredin.

Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn buddsoddi yn y seilwaith priodol ar gyfer pob rhanbarth o Gymru, gan adlewyrchu ei anghenion, uchelgais a llesiant, a chydnabod na fydd un ateb yn addas i bawb. Gyda llai o gyllideb cyfalaf, rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau i weld pa un yw'r ateb mwyaf priodol i'r heriau sy'n codi gyda'n seilwaith. Dim ond drwy ddenu'r bobl hynny sydd â diddordeb y gallwn ni wneud hyn.

Mae angen i ni adeiladu ar y gwaith rydym eisoes wedi dechrau arno er mwyn gweld sut mae modd datblygu ein cymunedau mewn modd integredig a chydweithredol – fel y nodir ym mhennod tri, mae ein rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif yn hwyluso defnydd cymunedol o ysgolion a chyd-leoli gwasanaethau, ac rydym wedi dyrannu £15m i gefnogi hyn wrth gyhoeddi'r adolygiad canol cyfnod.

Rydym hefyd yn creu canolfannau economaidd strategol fel rhan o Dasglu'r Gweinidog ar gyfer Cymoedd y De. Os bydd y rhain yn llwyddiannus, bydd cyfle i roi'r modelau hyn ar waith ledled Cymru yn y dyfodol. Rhaid i ni hefyd nodi'r buddsoddiadau mewn seilwaith mewn da bryd er mwyn sicrhau bod modd bodloni anghenion lleol heb darfu ar y gwasanaethau mae pobl yn dibynnu arnynt.

Er mwyn deall anghenion y dyfodol yn well, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch yr opsiwn gorau ar gyfer ein cynllun defnydd tir newydd, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a fydd yn dod i ben yn haf 2018. Hefyd, rydym wedi penderfynu y dylai Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ganolbwyntio'n gyntaf ar ddatgarboneiddio a thwf gwyrdd a glas. Pan gaiff rôl y comisiwn ei sefydlu yr haf hwn, yr hyn y bydd yn rhaid iddo'i wneud yn syth yw cysylltu â rhanddeiliaid i gasglu amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch seilwaith y dyfodol. Rydym yn edrych ymlaen at gael gweld adroddiad cyntaf Cyflwr y Genedl gan y comisiwn yn 2020. Mae'n bwysig i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a safbwyntiau'r comisiwn gyfrannu at ein cynlluniau buddsoddi a llywio ein strategaeth ehangach ar gyfer gweithio â Llywodraeth y DU a'r sector preifat i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion seilwaith Cymru.

### c. Byddwn yn rhoi systemau ar waith i gryfhau mwy ar y gwerthusiadau ar draws y llywodraeth a blaenoriaethu buddsoddiadau mewn seilwaith

Bydd gan grŵp o uwch swyddogion Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros nodi cynigion sydd fwyaf cyson â'n blaenoriaethau buddsoddi. Byddwn yn dod ag arbenigwyr ynghyd i werthuso cynigion, gan gynnwys ystyriaethau Prif Economegydd Llywodraeth Cymru ohonynt, a dadansoddiad arbenigwr o'u heffeithiau carbon. Defnyddir hyn i roi cyngor i Ysgrifenyddion y Cabinet i'w helpu wrth wneud penderfyniadau ynghylch lle dylid dyrannu adnoddau er mwyn sicrhau'r effaith orau bosibl. Byddwn hefyd yn gwella rôl byrddau rhaglenni o fewn portffolios Gweinidogol a byrddau sy'n gwneud penderfyniadau

am fuddsoddi er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn chwilio am gyfleoedd i gryfhau cynigion drwy gydweithio ar draws y llywodraeth ac ystyried effeithiau ehangach.

Bydd cynigion effeithiol i fuddsoddi mewn seilwaith yn dibynnu i raddau helaeth ar ansawdd yr achosion busnes a ddatblygir; y sylfaen dystiolaeth sy'n deillio o'r broses werthuso ac i ba raddau y mae rhanddeiliaid wedi bod yn rhan – mae pob un o'r rhain yn elfennau allweddol o'r camau gweithredu a nodir yn y bennod hon.

### d. Byddwn yn datblygu ein dull o greu rhagolygon a senarios

Bydd adroddiad y Prif Economegydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft yn 2018, a bydd yn cynnwys dadansoddiad o'r rhagolygon cyllidol tymor hwy a fydd yn sail i'r senarios ar gyfer gwariant cyfalaf ac adnoddau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd yn cyhoeddi rhagolygon gwariant cyhoeddus y DU sy'n mynd y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio presennol. Cafodd y rhagolygon diweddaraf eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2018 ar gyfer y blynyddoedd hyd at 2022-23, ddwy flynedd y tu hwnt i'r cynlluniau cyfalaf presennol. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd yn cyhoeddi rhagolygon tymor hir yn ei Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol, a chyhoeddwyd yr un diweddaraf ym mis Gorffennaf 2017.

Bydd y ffynonellau awdurdodol hyn, a mathau eraill o dystiolaeth gan gynnwys yr *Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol*, yn helpu wrth ddatblygu llwybrau ar gyfer cyllidebau cyfalaf ac adnoddau Llywodraeth Cymru y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio presennol. Yn anochel, bydd cryn ansicrwydd ynghylch y senarios hyn, ond byddant yn fframwaith defnyddiol at ddibenion cynllunio tymor hir.

## 2. Cynyddu'r adnoddau a fuddsoddir mewn seilwaith strategol â blaenoriaeth dros y 10 mlynedd nesaf y tu hwnt i lefelau cyllidebol disgwyliedig.

Mae'n bur debyg y bydd llai o adnoddau cyfalaf ar gael yn y dyfodol, felly bydd yn rhaid i ni adeiladu ar ein llwyddiant hyd yma i gynyddu'r cyfalaf o ffynonellau eraill. Mae angen i ni wneud mwy i sicrhau effaith fwyaf bosibl pob punt sy'n cael ei buddsoddi yng Nghymru. Bydd hyn yn gofyn am lawer mwy o gydweithio ar draws y llywodraeth, gyda'r sector cyhoeddus a chyda'r sector preifat.

### e. Byddwn yn dal ati i gynyddu lefelau cyllid cyfalaf

Ein strategaeth yw sicrhau bod cymaint ag y bo modd o adnoddau ar gael i ni a'n bod yn cyfeirio'r rhain at y meysydd hynny lle byddant yn cael yr effaith fwyaf. Byddwn yn parhau i dynnu ein gwariant cyfalaf at ei gilydd mewn modd cydlynol ac yn manteisio ar yr holl adnoddau sydd ar gael i ni i hybu ein buddsoddiad cyfalaf – gan gynnwys defnyddio ein pwerau benthyca a threthu newydd, a Chronfa Wrth Gefn Cymru.

Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ac i sicrhau bod gennym ystod lawn o ysgogiadau ariannol i'w defnyddio, rydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol er mwyn i Weinidogion Cymru allu cyhoeddi bondiau ar gyfer gwariant buddsoddiad cyfalaf.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio atebion cyllido arloesol i helpu i ddarparu buddsoddiad ychwanegol mewn seilwaith cymdeithasol ac economaidd hanfodol. Rydym wedi cyhoeddi £1bn o fuddsoddiad gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae tri phrosiect yn rhan o lif prosiectau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar hyn o bryd – cefnogi'r gwaith o gyflawni band B Rhaglen i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif; cwblhau rhannau pump a chwech yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd, a Chanolfan Ganser newydd Felindre, yng Nghaerdydd.

Er ein bod yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar brosesau datblygu a chaffael y tri chynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol hyn, byddwn yn adolygu'r posibilrwydd o ymestyn llif prosiectau'r model. Bydd y dirwedd gyllidol gyffredinol, cyllidebu cyfalaf, a chostau cyfle buddsoddiadau mawr eraill yn dylanwadu wrth benderfynu a ddylid ymestyn y llif prosiectau.

Mae'n bwysig ein bod yn gallu rheoli ein cyllideb cyfalaf yn hyblyg. Byddwn yn dal i ddefnyddio ein dull i gyllido buddsoddiad drwy fanteisio cymaint ag y bo modd ar y mathau rhataf o gyfalaf yn gyntaf cyn symud ymlaen i fathau drutach a mwy cymhleth o fuddsoddiad.

Mae benthyca cyfalaf yn ein helpu i reoli ein hadnoddau yn fwy effeithlon a chyflawni ein nodau seilwaith – gan weithio ochr yn ochr â'n cyllideb cyfalaf presennol a'n cynlluniau cyllido arloesol. Ond, nid arian ychwanegol yw benthyciadau cyfalaf, ac mae'n rhaid eu had-dalu. Rydym wedi ystyried yn ofalus sut rydym yn defnyddio'r pwerau hyn, gan edrych yn strategol ar flaenoriaethau Cymru.

Mae ein cynigion cyfalaf presennol (2018-19 i 2020-21) yn defnyddio £375m o fenthyciad gan ddefnyddio ein pwerau cyllidol newydd. Bydd ein bwriad i ddefnyddio benthyciadau yn cael ei ystyried yn ofalus yn ystod cyfnod pob cyllideb, a dim ond ar ôl defnyddio pob ffynhonnell gonfensiynol, ratach o arian cyfalaf sydd ar gael y defnyddir hyn.

Byddwn yn ceisio sicrhau bod cymaint ag y bo modd o gyllid yr UE yn cael ei ddefnyddio wrth i ni baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd. Rhwng 2014 a 2020, caiff £366m ei wario ar gynlluniau seilwaith yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer buddsoddiadau seilwaith sylweddol yng ngweddill cyfnod y rhaglen, gyda £106m ar gael ar gyfer Metro De Cymru.

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur polisi yn nodi ein dulliau i ddatblygu polisi buddsoddi rhanbarthol ar ôl i'r DU adael yr UE. Rydym yn credu bod yn rhaid ail-addasu llinell sylfaen taliad grant bloc y DU ar gyfer Cymru pan fyddwn yn gadael yr UE er mwyn adlewyrchu'r swm gwirioneddol o arian a fydd yn cael ei golli yng Nghymru yn sgil Brexit a chan ystyried yr arian y byddai Cymru wedi disgwyl, yn rhesymol, ei gael fel arall o ffynonellau'r UE.

Byddwn yn edrych hefyd ar gyfuno adnoddau a chynlluniau ar draws patrymau rhanbarthol. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio ar draws portffolios Gweinidogion, gan adeiladu ar y camau rydym eisoes wedi'u cymryd yn y cyfeiriad hwn, er enghraifft i gysoni'r gwaith o ddatblygu a darparu Metro De Cymru gyda datblygiad Canolfan Ganser newydd Felindre.  Ar ben hynny, mae tir Llywodraeth Cymru o'r gwahanol bortffolios ar gael i helpu i gyrraedd y targed o ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy. Byddwn yn ceisio cael eglurhad ynghylch cylchoedd cynllunio a phwyntiau penderfynu ar draws y sector cyhoeddus (awdurdodau cynllunio rhanbarthol, y GIG) a'r sector preifat (Network Rail) i gefnogi'r dasg o gydweithio a nodi cyfleoedd i integreiddio gwasanaethau. Byddwn yn adeiladu ar y dulliau rydym yn eu defnyddio'n barod wrth ddelio â'n bargeinion dinesig a byddwn yn parhau i drafod ynghylch datblygu bargen twf bosibl yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth Cymru.

Bydd awdurdodau lleol yn bartner pwysig yn y gwaith o gyflawni'r agenda hon. Dim ond drwy weithio'n agosach, ar lefel ranbarthol gyson, y bydd modd sicrhau bod y gwasanaethau'n aros yn gadarn ac yn ymatebol yn y dyfodol.

### f. Byddwn yn canolbwyntio ar ddylanwadu ar lywodraeth y DU a'r sector preifat ynghylch buddsoddi mewn seilwaith i sicrhau cymaint o fanteision ag y bo modd i gymunedau a busnesau yng Nghymru

Rhaid i ni sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU a'r sector preifat ynghylch datblygu a darparu seilwaith heb fod wedi'i ddatganoli yng Nghymru a harneisio'r cyfleoedd a ddaw gyda hyn. Mae gan Wylfa Newydd, er

enghraifft, y potensial i ddiwallu rhai o'r materion ynni yn y DU ac i gynnig buddiannau tymor hir ehangach i gymunedau lleol yng Nghymru.

Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn datblygiadau seilwaith yn Lloegr, yn enwedig mewn perthynas â chysylltiad ynni a thrafnidiaeth gyda Chymru. Mae angen i ni ystyried sut gallwn ddylanwadu ar y rhain a defnyddio ein pŵer negodi i'r eithaf. Byddwn yn creu cysylltiadau â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU ac yn sicrhau perthynas effeithiol rhwng y Comisiwn hwn a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru sydd newydd gael ei sefydlu.

Mae rhai elfennau cryf o orgyffwrdd rhwng galwadau yn y *Cynllun Gweithredu Economaidd* a heriau Strategaeth Ddiwydiannol y DU. Rydym yn trafod gyda Llywodraeth y DU ar lefel y Gweinidogion ac ar lefel swyddogion i dynnu sylw at ragoriaeth yng Nghymru a sicrhau ein bod yn chwarae rhan lawn yn Strategaeth Ddiwydiannol y DU. Yn yr un modd, mae Strategaeth Twf Glân y DU wedi cyhoeddi sawl ffrwd o gyllid arloesi. Rydym yn gweithio gyda busnesa a'r byd academaidd i ystyried y cyfleoedd hyn a datblygu partneriaethau newydd.

Rhaid i ni gael llais hefyd mewn meysydd pwysig eraill heb eu datganoli, fel polisi ar gystadleuaeth yn y dyfodol, cytundebau masnach rydd dwyochrog posibl, cymorth dewisol, cymorth gwladwriaethol a fframweithiau caffael cyhoeddus.

Rydym yn edrych y tu hwnt i Gymru ac yn edrych ar gyfleoedd i weithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac eraill, gan adeiladu ar arferion gorau rhyngwladol. Rydym yn dal wedi ymroi, ar ôl i'r DU adael yr UE, i barhau i weithio gyda'n partneriaid a'n cyfeillion ar draws Ewrop. Bydd cryfder ein perthynas a'n cysylltiadau dramor yn dangos ein gallu i greu marchnadoedd newydd a sicrhau ein bod yn dal i fod yn lle atyniadol a chystadleuol i fuddsoddi ynddo ac i gynnal busnes.

Mae adroddiad cam un UE-DU yn nodi bod gobaith y bydd "trefniant parhaus" rhwng y DU a Banc Buddsoddi Ewrop. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwerth cael partneriaeth sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall gyda'r banc, a bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am gadarnhau'r berthynas hon yn ystod cam nesaf trafodaethau'r UE.

## 3. Lleihau costau cynnal a chadw a darparu seilwaith a sicrhau bod ein buddsoddiadau yn rhoi'r gwerth gorau am arian

Byddwn yn edrych ymhellach ar gyfleoedd i gryfhau ein ffordd o roi sicrwydd busnes a chyflawni cynlluniau.

**g. Byddwn yn cwblhau adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru ac yn rhoi model sefydliadol newydd ar waith i gefnogi sector cyhoeddus Cymru i gael y canlyniadau gorau posibl o'r broses gaffael**

Rydym wedi cydnabod ers tro byd y potensial y mae caffael cyhoeddus yn ei gynnig i sicrhau canlyniadau economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ar gyfer Cymru. Bydd y cynllun i edrych o'r newydd ar y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, yn sicrhau bod y broses gaffael yn gyson â blaenoriaethau'r llywodraeth ac yn addas i'r pwrpas ar ôl Brexit.

### Cefnogi cwmnïau Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld canran o'r gwariant caffael cyhoeddus yng Nghymru yn mynd i gwmnïau Cymru er mwyn iddynt dyfu. Rydym wedi ymroi i sicrhau bod cyflenwyr a chontractwyr lleol, llai yn gallu ennill gwaith, naill ai ar eu pen eu hunain neu drwy gyflwyno bidiau cydweithredol. Mae creu a chynnal cadwyni cyflenwi lleol yn rhoi hwb ariannol i gymunedau lleol ac economi Cymru yn ehangach.

Mae gennym nifer o bolisïau a fydd yn gymorth i ni wireddu'r uchelgais hwn, fel y gwaith o symleiddio'r broses gaffael, bidio ar y cyd a budd i'r gymuned. Gan gydweithio'n agos â rhanddeiliaid, rydym yn

adolygu dyfodol polisi caffael, yn enwedig yn sgil y penderfyniad i adael yr UE.

Byddwn yn ceisio sicrhau bod dull Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr yn cael ei ddefnyddio gyda phob contract fel bod meini prawf cymhwyster perthnasol a chymesur yn lleihau'r rhwystrau sy'n atal busnesau lleol, llai rhag cymryd rhan uniongyrchol. Mae'r system Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr ar GwerthwchiGymru yn cael ei disodli gan Ddogfen Caffael Sengl Ewropeaidd ar-lein (ESPD) – un o ofynion Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Bydd hyn yn symleiddio mwy ar y cam dewis, ac yn ei gwneud yn haws ac yn llai costus i gwmnïau llai fidio am waith. Mae Dogfen Caffael Sengl Ewropeaidd yn gweithredu ar egwyddorion hunanardystio felly dim ond y sawl a fydd yn ennill y bid fydd yn gorfod darparu tystiolaeth ategol.

Byddwn yn ceisio sicrhau bod canllawiau ynghylch bidio ar y cyd yn cael eu hyrwyddo ymhlith prynwyr a chyflenwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod bidiau ar y cyd yn cael eu gwahodd fel mater o drefn ac nad ydynt yn cael eu gwerthuso'n llai ffafriol na bidiau gan un cyflenwr.

Dylai'r dulliau caffael adlewyrchu'r ymrwymiadau a geir yn ein Cynllun Gweithredu Economaidd a cheisio torri contractau mawr yn lotiau llai. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i fusnesau bach lleol yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi'r cyfrwng i greu marchnadoedd cryf yng Nghymru a meithrin gallu a fydd yn helpu i osgoi'r risg o gael llond llaw o fusnesau mawr yn ennill contractau.

Rydym yn disgwyl i brosiectau seilwaith ddefnyddio ffynonellau lleol a chadwyni cyflenwi lleol cymaint ag y bo modd. Mae buddsoddi mewn prosiectau adeiladu a seilwaith yn gallu cael effaith ddwys ar sectorau a diwydiannau sy'n strategol bwysig yng Nghymru, fel dur. Byddwn yn disgwyl i'n polisi caffael ym maes dur fod yn rhan greiddiol o'r dulliau caffael er mwyn sicrhau bod cymaint ag y bo modd o ddur a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio.

Byddwn yn defnyddio'r dadansoddiad o ddata caffael i nodi'r 'bylchau cyflenwi' – meysydd gwariant nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol neu ddim yn cael eu caffael o Gymru – i weld a oes cyfleoedd i ddatblygu ac amrywio'r sylfaen gyflenwi yng Nghymru.

Byddwn yn disgwyl i fusnesau ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur a chefnogi ymdrechion i leihau gwastraff ac effaith hynny. Bydd ystyriaethau carbon isel yn ganolog i hyn, a byddwn yn disgwyl i fusnesau gyfrannu at ein targedau lleihau carbon.

### Cymru – cenedl gwaith teg

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r grym gwario a ddaw wrth fuddsoddi mewn seilwaith a chaffael gwasanaethau cyhoeddus er budd busnesau yng Nghymru a rhoi hwb i gyflogadwyedd unigolion. Rydym yn gobeithio y bydd busnesau'n gweithio gyda ni ac yn buddsoddi yn eu datblygiad eu hunain, ac yn natblygiad eu gweithlu, gan drin gweithwyr yn deg, a chyfrannu at yr economi yn ehangach.

Rydym am i Gymru fod yn genedl gwaith teg sydd ag economi lle gall mwy o bobl gael mynediad at well swyddi, yn nes at adref, gydag incwm sicr a'u bod yn gallu datblygu sgiliau a gyrfaoedd heb unrhyw gam-fanteisio na thlodi. Y cam cyntaf oedd sefydlu Bwrdd Gwaith Teg, sydd wedi gwneud cynnydd da iawn yn adnabod y ffyrdd gorau o osod gwaith teg wrth galon ein heconomi. Y cam nesaf yw sefydlu comisiwn gwaith teg erbyn haf 2018, a fydd yn edrych ar sut gallwn sicrhau rhagor o ganlyniadau gwaith teg o wariant cyhoeddus ac arferion caffael yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio ein buddsoddiadau mewn seilwaith i hyrwyddo canlyniadau gwaith teg a chefnogi arferion da.

Bydd disgwyl i fusnesau gytuno i'n *Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi* a sicrhau gwaith teg i bob un sy'n cyfrannu at ddarparu

prosiectau adeiladu a seilwaith pwysig. Caiff ein polisi cyfrif banc prosiectau ei ddefnyddio i sicrhau bod busnesau lleol sy'n rhan o gadwyni cyflenwi yn cael taliad teg a phrydlon. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng ngoleuni'r effaith ddifrifol ar is-gontractwyr Carillion.

**Budd i'r Gymuned**

Byddwn yn annog prosiectau i ddefnyddio ein polisi budd i'r gymuned ac i fynd ati rhagor i feddwl yn arloesol er mwyn ehangu sgôp y gwerth cymdeithasol i Gymru. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi adnodd e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth, sicrhau mwy o gefnogaeth a dealltwriaeth o'r budd i'r gymuned. Un maes y byddwn yn canolbwyntio arno yw sicrhau bod polisi budd i'r gymuned yn cael ei ddefnyddio yn ôl y bwriad, a'i fonitro drwy gydol oes y prosiect, drwy gwblhau Adnodd Mesur Budd i'r Gymuned sydd wedi'i greu gan Gwerth Cymru.

Byddwn yn gwneud y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn batrwm ar gyfer sicrhau budd i'r gymuned. Bydd yn ofynnol i'r awdurdod contractio osod dangosyddion perfformiad allweddol sy'n benodol ar gyfer budd i'r gymuned, a chaiff y rhain eu gwerthuso fel naill ai wedi pasio neu wedi methu. Byddwn yn disgwyl gwelliannau i'r rhain yn ogystal â buddion ychwanegol i'r gymuned fel rhan o gynigion cwmni'r prosiect, a rhoddir sgôr i'r rhain yn y gwerthusiad. Byddwn yn edrych hefyd ar sut gallwn osod a chael buddion i'r gymuned ar gyfer cyfnod consesiynol cyfan o 25 mlynedd.

### h. Byddwn yn parhau i wella ein dull o ddatblygu a gwerthuso achosion busnes

Gan ddefnyddio'r model pum achos, achosion busnes yw'r cyfryngau a ddefnyddiwn i nodi sut bydd buddsoddiad a gynigir mewn seilwaith yn cyfrannu at flaenoriaethau'r llywodraeth; yn dangos gwerth am arian ac yn cynrychioli'r opsiwn mwyaf priodol i gyflawni'r amcanion, sy'n fforddiadwy, bod modd ei gyflawni a'i gwblhau o fewn yr amserlenni y cytunir arnynt.

Wrth i'r galw am wasanaethau cyhoeddus gynyddu o hyd, ac wrth i ddisgwyliadau'r cyhoedd ynghylch hygyrchedd a safon gwasanaethau fynd yn fwy hefyd, mae'n bwysig ein bod yn ceisio gwella'r gwerth am arian a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion. Mae hyn yn gofyn am gynllunio da, her adeiladol, a gwerthuso gwariant cyhoeddus yn fanwl.

Mae'r rhaglen Gwell Achosion Busnes wedi cymryd camau pendant i sicrhau bod gan ymarferwyr yr adnoddau a'r sgiliau i wynebu'r her hon. Byddwn yn parhau i ddatblygu cymunedau maes i wella safon y gwaith o ddatblygu achosion busnes. Po fwyaf y byddwn yn rhannu ein profiadau ac yn meithrin y broses ddysgu, gorau oll y bydd ein penderfyniadau o ran buddsoddi.

Yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, byddwn yn ariannu cynigion sy'n cynnig yr effeithiau hirdymor mwyaf cynaliadwy, sy'n dangos y ffyrdd o weithio, i gael atebion integredig i gymunedau.

Byddwn yn gwneud fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer prosiectau yn rhan annatod o Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod ein prosiectau seilwaith yn integredig, yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol, ac yn gallu dangos newid. Bydd y fframwaith yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i weld a yw prosiect yn helpu pobl i gael ffordd o fyw sy'n garbon isel neu'n eu hatal rhag gwneud hynny, er enghraifft.

Hefyd, byddwn yn annog bod ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn cael eu gwerthuso'n drylwyr a'u herio'n allanol, a chynnwys torbwyntiau go iawn mewn prosiectau i sicrhau eu bod yn cael eu monitro'n effeithiol drwy'r amser.

### i. Byddwn yn cyflwyno proses fwy ffurfiol i nodi a monitro rhaglenni a phrosiectau ac i gryfhau ein sicrwydd ynghylch rheoli rhaglenni a phrosiectau

Mae cynlluniau seilwaith, oherwydd eu natur, yn gallu bod yn risg uchel. Maent yn gallu bod yn gynlluniau proffil uchel, yn drawsbynciol ac yn arloesol gyda gwerth ariannol mawr, a sawl ffrwd gyllido allanol a/

neu bartneriaid a bod yn ddibynnol ar gynlluniau eraill. Mae adroddiad Sefydliad y Llywodraeth yn dweud mai un o'r prif resymau dros benderfyniadau seilwaith gwael yw diffyg dealltwriaeth a rheolaeth ynghylch risg prosiectau[1].

Byddwn yn cyflwyno proses fwy ffurfiol i nodi a monitro rhaglenni a phrosiectau ac i gryfhau ein sicrwydd ynghylch rheoli rhaglenni a phrosiectau drwy:

- Greu dull sy'n fwy syml, cydlynol a phroffesiynol i reoli rhaglenni a phrosiectau gan ddod â meysydd sicrwydd a safonau rheoli rhaglenni a phrosiectau ynghyd o fewn Llywodraeth Cymru.
- Y canolbwynt sicrwydd integredig sy'n cynnig adolygiadau sicrwydd ar gyfer pob rhaglen a phrosiect ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Bydd yn mabwysiadu prosesau newydd i gynnal adolygiadau mwy pendant a manwl i ychwanegu mwy o werth i'r broses sicrwydd. Bydd y canolbwynt yn diffinio gofynion sicrwydd priodol ac amserol a fydd yn symleiddio'r broses ar gyfer Cymru, gan ei gwneud yn fwy cadarn, yn berthnasol i'r arferion gorau presennol ac yn hyrwyddo mwy o dryloywder o ran risg.
- Sefydlu canolfan arbenigedd strategol ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau i rannu gwybodaeth ac arferion gorau ar draws Llywodraeth Cymru a chyda'n partneriaid cyflawni.

### j. Byddwn yn datblygu dull cadarn a chyson i werthuso ein buddsoddiadau cyfalaf mewn seilwaith i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ar fuddsoddi

Mae gwerthuso rhaglenni a phrosiectau yn effeithiol yn gallu bod yn sail i fodelu a chreu rhagolygon cyn-prosiect ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol, gan sicrhau effaith fwyaf y buddsoddiad, sicrhau gwell gwerth am arian ac osgoi cynnydd mewn costau.

Byddwn yn nodi ac yn mabwysiadu arferion gorau i wella'r modd rydym yn gwerthuso cynlluniau. Bydd hyn yn cael ei wneud ar yr un pryd â darn penodol o waith gwerthuso, a fydd yn cychwyn yn ystod haf 2018, i ddeall effaith buddsoddiadau hanesyddol mewn seilwaith gydag arian Ewropeaidd yng Nghymru, gan edrych ar ddefnydd o asedau o ganlyniad i hynny a'r cysylltiadau rhyngddynt ar lefel ofodol.

Bydd hyn yn adeiladu hefyd, er enghraifft, ar ein cydweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre i ddatblygu'r achos busnes ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre. Rydym wedi bod yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth y GIG i fesur budd yr opsiynau ar gyfer y ganolfan newydd drwy ddefnyddio Blynyddoedd o Fywyd wedi'u Haddasu yn ôl Ansawdd i weld beth yw'r gwelliannau a ddisgwylir yn y cyfraddau goroesi ac yn ansawdd bywyd y sawl sy'n goroesi canser. Mae mesur y buddiannau yn helpu i weld beth yw'r opsiynau gorau a mwyaf priodol ar gyfer ymyrryd. Bydd y gwersi a ddysgir o gynllun Felindre yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau ar fuddsoddiadau cyfalaf eraill ym maes iechyd yn y dyfodol.

### k. Byddwn yn annog ac yn hwyluso cydweithio rhwng partneriaid cyflawni seilwaith

Mae'n bwysig bod adnoddau'n cael eu dyrannu i ddwyn y budd mwyaf i bobl Cymru. I sicrhau'r budd mwyaf, byddwn yn annog ac yn hwyluso cydweithio rhwng partneriaid cyflawni seilwaith ar lefelau cynllunio strategol, datblygu, cydlynu a darparu. Bydd hyn yn hanfodol os ydym am lwyddo i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau lleol dros y tymor hwy, er enghraifft drwy gyd-leoli gwasanaethau.

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r arferion gorau o ran cydweithio yng Nghymru ac ymhob man arall, gan gydnabod y gall hyn fod ar ffurfiau gwahanol a chynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid. Byddwn yn

[1] www.instituteforgovernment.org.uk/publications/whats-wrong-infrastructure-decision-making-June-2017

ceisio gweld beth sy'n rhwystro cydweithio, ac yn cael gwared ar y rhwystrau hynny. Byddwn yn rhannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu ynghylch rheoli partneriaethau cydweithredol er mwyn datrys problemau a heriau.

### l. Byddwn yn parhau i ystyried sut gallwn ddefnyddio ein hasedau'n well i leihau costau sydd ynghlwm wrth gynnal a darparu seilwaith i gefnogi ein prif flaenoriaethau.

Byddwn yn ystyried sut gallwn ddefnyddio ein hasedau'n well i leihau costau sydd ynghlwm wrth gynnal a darparu seilwaith i gefnogi ein prif flaenoriaethau. Bydd egluro defnydd o asedau ac effeithiolrwydd asedau fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau yn allweddol i sicrhau'r gwerth mwyaf o'n hasedau mewn modd tryloyw a gweledol, a bod yn hyblyg er mwyn newid ein dulliau fel y bo angen. Bydd rheoli a gwaredu asedau sydd dros ben yn allweddol i hyn, gyda'r hyn a dderbynnir yn cael ei ail-fuddsoddi i gefnogi meysydd blaenoriaeth. Hefyd, mae meddwl yn greadigol am asedau, eu lleoliad, a phwy arall a allai eu defnyddio, yn cynnig cyfleoedd i gynnal a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau gyda llai o adnoddau.  Mae rheoli asedau'n dda yn gallu arwain at well darpariaeth o wasanaethau cyhoeddus drwy gyd-leoli gwasanaethau a rhyddhau cyfalaf ar gyfer ail-fuddsoddi.

Yng nghynllun peilot *Menter Gydweithredol Ystad Sector Cyhoeddus Cymru* yn ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, tynnwyd sylw at gryn gyfleoedd i sicrhau effeithlonrwydd, pe byddai gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio ac yn edrych yn fwy strategol ar eiddo a rheoli eiddo ar draws ffiniau daearyddol a sefydliadol.

Yn y blynyddoedd diweddar, rydym wedi canolbwyntio ar wella faint o wybodaeth sydd ar gael am asedau gwasanaeth cyhoeddus, ac ansawdd yr wybodaeth honno. Mae angen ysgogi ar draws y sector cyhoeddus i gyflymu'r cydweithio ar eiddo i gyrraedd targedau ariannol a gwireddu dyheadau o ran darparu gwasanaethau. Byddwn yn atgyfnerthu mwy ar ein ffordd o reoli asedau drwy:

- Weithredu'r gwersi a ddysgwyd o raglen beilot Cwm Taf ac ailadrodd hyn ledled Cymru. Bydd hyn yn rhoi cyfle i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i integreiddio gwasanaethau; gwella profiad y cwsmer; creu mwy o arbedion effeithlonrwydd; ad-drefnu'r ystad a gwella ansawdd asedau gwasanaethau cyhoeddus drwy fuddsoddi mewn llai o asedau ffisegol cyffredin;
- Sicrhau bod adrannau Llywodraeth Cymru yn amlygu egwyddorion ein *Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol*;
- Adrodd ar sut mae asedau Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y pum ffordd o weithio yn cael eu defnyddio cymaint ag y bo modd, a chyflwyno *Symud Cymru Ymlaen* a *Ffyniant i Bawb*;
- Cwblhau'r cynnig i ddatblygu cam tri ein hadnodd Rheoli Asedau Strategol, a fydd yn dwyn ynghyd setiau data Metro De Cymru; Tasglu'r Gweinidog ar gyfer Cymoedd De Cymru; y GIG ac awdurdodau lleol

### m. Byddwn yn sicrhau bod gennym y sgiliau a'r profiad priodol yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru i wireddu ein huchelgais o ran y seilwaith, a byddwn yn cefnogi diwydiant i wneud yr un peth.

Mewn cyfnod o newid na welwyd mo'i debyg erioed o'r blaen o ganlyniad i benderfyniad y DU i adael yr UE ac ar adeg o gyni parhaus, rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod gan wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yr adnoddau priodol i gefnogi Gweinidogion. Rydym yn diogelu ein sefydliad at y dyfodol i sicrhau bod gennym y gallu, yr hyder, yr arweinyddiaeth a'r cadernid i wynebu'r heriau sy'n ein hwynebu fel sefydliad cryf, medrus a chynaliadwy. Mae angen i ni adeiladu ar ein cryfderau presennol a datblygu sgiliau newydd a gweithio'n fwy hyblyg ar draws ffiniau polisi. Ein nod yw bod yn sefydliad cynhwysol sy'n perfformio'n dda, sy'n wirioneddol gydweithredol

ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

A ninnau erbyn hyn yn gydberchennog Local Partnerhsips Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig, mae gennym y potensial i ddefnyddio arbenigedd masnachol i helpu i feithrin gallu masnachol. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gynnal y proffesiwn caffael. Bydd Gwerth Cymru yn datblygu rhaglen gallu caffael newydd, a fydd yn seiliedig ar yr adolygiad caffael gan ymgynghori â rhanddeiliaid. Byddwn yn gwella lefelau gallu, yn mynd i'r afael â'r bylchau o ran sgiliau ac yn gwella proffesiynoldeb ym maes caffael i helpu i ddatrys rhai o'r problemau sy'n codi gydag adnoddau caffael yng Nghymru, a meithrin ffyrdd creadigol o feddwl a defnydd arloesol o bolisi caffael Llywodraeth Cymru.

Bydd Gwerth Cymru yn gweithio ag ysgolion a cholegau i godi proffil y broses caffael fel gyrfa, gan drefnu rhaglen brentisiaeth newydd ar gaffael, cynnig hyfforddiant ar gyfer cymhwyster Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi a chysylltu â sefydliadau addysg uwch i sicrhau lleoliadau caffael i raddedigion yn sector cyhoeddus Cymru. Byddwn hefyd yn datblygu ein perthynas â'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi.

Mae'n bwysig bod partneriaid a busnesau'n ymwybodol o'r adnoddau y gall fod eu hangen arnynt yn y tymor hwy, a buddsoddi i ddatblygu a chadw eu gweithlu medrus eu hunain. Fel sydd wedi'i dangos wrth i ni fuddsoddi yn y Ganolfan Ragoriaeth ym maes Peirianneg yn Llangefni, rydym wedi ymroi i gysylltu'r hyfforddiant a ddarparwn yn agosach ag anghenion economi Cymru. Mae angen pobl greadigol, hynod fedrus sy'n gallu addasu er mwyn creu Cymru lewyrchus. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel i bobl o bob oed yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod gan Gymru sylfaen sgiliau gadarn a'i bod yn gallu denu busnesau newydd a datblygu'r rhai sydd gennym yn barod. Wrth adael yr UE, rhaid i ni wneud dwywaith yr ymdrech i greu economi sydd yn fwy cystadleuol fyth, ac mae sgiliau uwch yn greiddiol i hyn.

---

## 4. Sefydlu a chynnal system newydd o fonitro gwariant ar seilwaith strategol mawr yng Nghymru, gan wella rheolaeth a phresenoldeb cyhoeddus.

Gall Llywodraeth Cymru ymwneud â channoedd o brosiectau seilwaith ar unrhyw adeg, o brosiectau bach lleol gwerth rhai miloedd o bunnoedd i gynlluniau cenedlaethol mawr gwerth biliynau o bunnoedd. Mae'n bwysig i ni fonitro'r rhain yn ofalus ac i randdeiliaid fedru gweld yn glir sut mae'r cynlluniau'n mynd rhagddynt.

### n. Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau blynyddol pob gwanwyn am y llif o brosiectau gan roi darlun cyfredol o'r buddsoddiadau seilwaith yng Nghymru.

Mae hynny'n help wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau sector preifat a chyhoeddus, yn hwyluso cynllunio integredig ac yn hyrwyddo cydweithio.  Wrth ymateb i awgrymiadau gan randdeiliaid, byddwn yn ceisio rhoi gwybodaeth ariannol a gwybodaeth gyflenwi fanylach. Byddwn yn edrych ar ymestyn y llif o brosiectau i gynnwys cynlluniau buddsoddi ystod ehangach o'n partneriaid cyflawni cyhoeddus a phreifat.

### o. Byddwn yn parhau i gasglu a thynnu sylw at statws cynlluniau sy'n mynd rhagddynt.

Byddwn yn parhau i gasglu data o bob portffolio Gweinidogol am ein buddsoddiadau dros 500k mewn seilwaith er mwyn ein helpu i ddeall beth yw'r sefyllfa a sut mae'n prosiectau seilwaith yn mynd rhagddynt, a helpu i lunio rhaglenni buddsoddi yn y dyfodol.

## Ffigur pedwar – Crynodeb o gamau gweithredu

1. **Creu system sy'n nodi ac yn blaenoriaethu cynlluniau seilwaith o bwys cenedlaethol ar draws cyfrifoldebau adrannol, gan gyfeirio adnoddau yn benodol ar fuddsoddiadau sydd â'r flaenoriaeth uchaf sy'n cynnig y budd mwyaf yn unol â datblygu cynaliadwy.**

   a. Byddwn yn gosod cyfres o egwyddorion buddsoddi i arwain ein gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau fel ein bod yn sicrhau'r effaith orau bosibl ac yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i gyflawni yn y tymor hwy.

   b. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartïon eraill sydd â diddordeb i ddatblygu'r egwyddorion buddsoddi a chreu consensws ynghylch anghenion seilwaith Cymru dros y tymor byr i ganolig.

   c. Byddwn yn rhoi systemau ar waith i gryfhau mwy ar y gwerthusiadau ar draws y llywodraeth a blaenoriaethu buddsoddiadau mewn seilwaith.

   d. Byddwn yn datblygu ein dull o greu rhagolygon a senarios.

2. **Cynyddu'r adnoddau a fuddsoddir mewn seilwaith strategol â blaenoriaeth dros y 10 mlynedd nesaf y tu hwnt i lefelau cyllidebol disgwyliedig.**

   e. Byddwn yn dal ati i gynyddu lefelau cyllid cyfalaf.

   f. Byddwn yn canolbwyntio ar ddylanwadu ar lywodraeth y DU a'r sector preifat ynghylch buddsoddi mewn seilwaith i sicrhau cymaint o fanteision ag y bo modd i gymunedau a busnesau yng Nghymru.

## 3. Lleihau costau cynnal a chadw a darparu seilwaith a sicrhau bod ein buddsoddiadau yn rhoi'r gwerth gorau am arian.

g. Byddwn yn cwblhau adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru ac yn rhoi model sefydliadol newydd ar waith i gefnogi sector cyhoeddus Cymru i gael y canlyniadau gorau posibl o'r broses gaffael.

h. Byddwn yn parhau i wella ein dull o ddatblygu a gwerthuso achosion busnes.

i. Byddwn yn cyflwyno proses fwy ffurfiol i nodi a monitro rhaglenni a phrosiectau ac i gryfhau ein sicrwydd ynghylch rheoli rhaglenni a phrosiectau

j. Byddwn yn datblygu dull cadarn a chyson werthuso ein buddsoddiadau cyfalaf mew seilwaith i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ar fuddsoddi.

k. Byddwn yn annog ac yn hwyluso cydweithio rhwng partneriaid cyflawni seilwaith.

l. Byddwn yn parhau i ystyried sut gallw ddefnyddio ein hasedau'n well i leihau costa sydd ynghlwm wrth gynnal a darparu seilwaith i gefnogi ein prif flaenoriaethau.

m. Byddwn yn sicrhau bod gennym y sgiliau a'r profiad priodol yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru i wireddu ein huchelgais ran y seilwaith, a byddwn yn cefnogi diwydiant i wneud yr un peth.

## 4. Sefydlu a chynnal system newydd o fonitro gwariant ar seilwaith strategol mawr yng Nghymru, gan wella rheolaeth a phresenoldeb cyhoeddus.

n. Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau blynyddol pob gwanwyn am y llif o brosiectau gan roi darlun cyfredol o'r buddsoddiadau seilwaith yng Nghymru.

o. Byddwn yn parhau i gasglu a thynnu sylw at statws cynlluniau sy'n mynd rhagddynt.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag Is-adran Cyllidebu Strategol Llywodraeth Cymru drwy

WIIPMailbox@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG34041 ISBN digidol 978-1-78903-466-0